

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 534 • Medi 2022 • 50c

Beep beep! Gwobr celf nodedig i artist o Fynydd Llandygai

(Diolch i Ogwen360 a Carwyn Meredydd)

Mae gwaith gan artist o Fynydd Llandygai wedi ei ddethol i ennill gwobr celf arbennig fel rhan o arddangosfa o waith rhyngwladol yn Oriol Elysium, Abertawe.

Mae'r artist Gareth Griffith wedi cipio prif wobwr nodedig Beep sy'n cael ei ddyfarnu bob dwy flynedd. Mae'n rhannu'r gamp gyda'r artist o ogledd Lloegr, Rachel Lancaster – gyda gwaith y ddau wedi eu dewis o blith celf gan 135 o artistiaid o ledled y byd.

Tasg yr artistiaid eleni oedd ymateb i'r thema benodol "Does dim byd wedi newid, mae popeth wedi newid". Roedd rhestr hir o dros fil o artistiaid wedi gwneud cais i arddangos eleni, gyda'r 135 terfynol wedi eu dethol gan banel o arbenigwyr yn cynnwys enillwyr blaenorol ac arbenigwyr o'r byd celf.

Er mai crys digon cyffredin yr olwg ydi canolbwynt tridarn buddugol Gareth Griffith, mae'r gwaith yn eich tynnu i mewn i ail-edrych ac ystyried cyd-destun y dilledyn.

Dywed Gareth fod y gwaith yn seiliedig ar grys anfonwyd iddo gan un o'i feibion sy'n byw yn yr Eidal. Roedd y crys wedi ei roi i hongian y ei stiwdio gelf ac mae'r tridarn yn astudiaeth gofalus o'r dilledyn a roddwyd yn y peiriant golchi gyda blanced y ci a dyna esbonio rhywfaint am deitl y gwaith, "Y Crys Blewog".

Mae arddangosfa Beep yn denu artistiaid cyfoes o



wledydd ar draws y byd a chan sicrhau'r brif wobwr, mae camp Gareth yn un sylweddol.

"Mae'r wobwr yn anrhydedd mawr i mi," meddai Gareth.

"Rwy'n edrych ymlaen i arddangos yn Abertawe gyda fy nghyd enillydd Rachel Lancaster yn arddangosfa Beep 2024."

Fel rhan o'r wobwr, bydd arddangosfa unigol o waith Gareth i'w weld yn yr

oriol nesaf Beep.

Ond does dim rhaid aros tan 2024 i weld mwy o waith yr artist o Fynydd Llandygai. Bydd y tridarn buddugol a sicrhodd wobwr Beep, "Y Crys Blewog" yn rhan o gasgliad o waith Gareth fydd yn Storiell ym Mangor fel rhan o'i arddangosfa "Ystafell yr Artist" o 8 Hydref tan 31 Rhagfyr yn ddiweddarach eleni.



23



24

Yn y rhifyn hwn:

- Diolch gan Achub y Plant **t3**
- Nyth y Gân **t11**
- Newyddion y Dyffryn Gwyrdd **t18**
- Chwilair **t25**



6

Panel Golygyddol

Ieuan Wyn

(Ffôn 600297)

ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts

(Ffôn 07815 093955)

l.roberts11@btinternet.com

Neville Hughes

(Ffôn 600853)

nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan

(Ffôn 602440)

dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard

(Ffôn 07402 373444)

trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams

(Ffôn 601167)

waltermenai@yahoo.co.uk

Rhodri Llŷr Evans

(Ffôn 07713 865452)

Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Owain Evans

(Ffôn 07588 636259)

owain.evans1@gmail.com

Carwyn Meredydd

(Ffôn 07867 536102)

carwynian@hotmail.com

Rhys Llwyd

(Ffôn 01248 601606) rml42@live.co.uk

Catrin Wager

(Ffôn 07930 280075)

catrinwager@yahoo.co.ukm

Swyddogion

CADEIRYDD

Dewi A Morgan, Park Villa,

Lôn Newydd Coetmor,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3DT (Ffôn 602440)

dewimorgan@live.co.uk

TREFNYDD HYSBYSEBION

Neville Hughes, 14 Pant,

Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)

nev_hughes@btinternet.com

YSGRIFENNYDD

Gareth Llwyd, Talgarnedd,

3 Sgwâr Buddug, Bethesda

LL57 3AH (Ffôn 601415)

garethllwyd197@btinternet.com

TRYSORYDD:

Paul Rowlinson, Crud yr Awel,

Lôn Newydd, Coetmor,

Bethesda LL57 3DT

(Ffôn 01248 605365 / 07949 034967)

PaulJRowlinson@outlook.com

Y Llais drwy'r post:

Owen G Jones, 1 Erw Las,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3NN (Ffôn 600184)

post@llaisogwan.com

Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan

Rhys Llwyd.

Y golygydd ym mis **Hydref** fydd

Owain Evans, 4 Rhes Mostyn,

Bethesda, Gwynedd, LL57 3AB.

07588 636259.

E-bost: owain.evans1@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn**,

1 Hydref os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu

Nos Iau, 20 Hydref,

ying Nghanolfan Cefnfaes am 6.45

DALIER SYLW: NID OES GWARANT

Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD

YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD

CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

CLWB CYFEILLION

Gwobrau Awst

£30.00 (88)

Linda Parker, Gwel y Nant, Bethesda.

£20.00 (57)

Janet Davies, Fford Abercaseg, Bethesda.

£10.00 (134)

Brenda Wyn Jones, Tregarth.

£5.00 (9)

Dyfrig Jones, Ty'n y Coed, Bethesda.

Gwobrau Medi

£30.00 (33)

Elin Edwards, Ffordd Pant, Bethesda.

£20.00 (92)

Menai Jones, Erw Faen, Tregarth.

£10.00 (100)

Parchg. Geraint Hughes, Pwllheli.

£5.00 (55)

Enid Lloyd Davies, Llanfairpwll.

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa

Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru,

Bangor (01248 353604).

Os gwyddoch am rywun sy'n cael

trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi

o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r

canlynol:

Gareth Llwyd – 601415

Neville Hughes – 600853

Archebu trwy'r post

Gwledydd Prydain – £22

Ewrop – £30

Gweddill y Byd – £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,

Gwynedd LL57 3NN

post@llaisogwan.com

01248 600184

Rhoddion i'r Llais

£6.50 Mona Macdonald, Bryn Tirion, Bethesda.

£2.00 Mrs. R. Rees, Stad Coetmor, Bethesda.

£50.00 Er cof am John a Jane Evans, Ciltwillan (gynt) oddi wrth Gwenhefin, Port Elgin, Canada, a Iona, Llanddulas.

£1.50 Carol, Erw Las, Bethesda.

£20.00 Er cof am Allan Wyn Jones, Bwthyn y Waen, Waen Wen, a fu farw 18 Awst 2021, oddi wrth ei weddw, Eleri.

£10.00 Emyr a Heulwen Roberts, Ystrad Awel, Bethesda.

£6.00 Don Hughes, Halifax.

£30.00 Er cof am benblwydd J.O. Roberts, Penybryn, Bethesda, oddi wrth Wendy, John a'r teulu, Garneddwen.

£15.00 Er cof am Eira annwyl, Tai Teilwriaid, oddi wrth Paul Bernet, Marlow

Diolch yn fawr

Londis Bethesda

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

a Swyddfa Bost

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr

7 diwrnod yr wythnos

Sefydlwyd

1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI

Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda

☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.

Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.

Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau

Dynion a Phlant gan Alison

Rhaid gwneud apwyntiad.

Ffoniwch: 07796 038824

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

CYMRAG

Ble mae arian twristiaeth yn mynd?

'Os ydi economi Gwynedd yn derbyn £1.35 biliwn y flwyddyn o dwristiaeth, fel yr honnir, pam mae cymunedau'r sir yn dlawd? Faint o'r arian sy'n dod i'n cymunedau?' Dyma'r cwestiynau mae Cylch yr Iaith yn eu gofyn gyda'r tymor twristaidd yn dod i'w benllan yn ystod gwyliu'r haf.

Meddai'r mudiad mewn datganiad: 'Mae Cyngor Gwynedd wedi methu dweud wrthym ble'n union y mae'r swm mawr hwn o arian yn mynd. Roeddem wedi gofyn am ddadansoddiad manwl o'i ddosbarthiad, ond yr hyn rydym wedi ei dderbyn ydi data ar ffurf ystadegau a graffiau sydd ddim yn rhoi darlun clir o'r sefyllfa. Mae angen i bobl Gwynedd gael gwybod faint o'r £1.35 biliwn sy'n mynd allan o'r sir, ac allan o Gymru, a faint sy'n mynd i fusnesau lleol, ac i fusnesau siaradwyr Cymraeg lleol.

'Yn ôl Cyngor Gwynedd, mae'r math o dwristiaeth sydd gennym "yn dda iawn i'r

economi", ond beth ydi ystyr hynny os nad ydi ein cymunedau lleol yn elwa o'r sefyllfa?

'Mae Cyngor Gwynedd wedi cydnabod bod y sir yn dioddef gan or-dwristiaeth, a'i bod "yn anghynaliadwy", ac eto mae'r Cyngor yn hyrwyddo cynnydd yn niferoedd yr ymwelwyr drwy ddatblygu ac ehangu'r isadeiledd.

'Rhaid i'r Cyngor fod yn eithriadol o ofalus. Mae'r Blaidd Geidwadol a chwmni preifat North Wales Tourism yn daer dros ddatblygu twristiaeth ymhellach yng ngogledd Cymru, gydag atyniadau poblogaidd Gwynedd a Môn mewn golwg yn arbennig. Maen nhw'n galw am lacio rheolau ar fusnesau, a gwario'n helaeth ar greu cyfleusterau twristaidd newydd ac ehangu'r isadeiledd. Y bwriad ydi darostwng ein cymunedau i dwristiaeth, gan eu gwneud yn gynyddol ddibynnol ar y farchnad ymwelwyr. Nid hynny ydi'r ateb, oherwydd cynyddu'r or-dwristiaeth bresennol fyddai canlyniad hynny.'

Howard Huws
Cydlynnydd Ymgyrch Dwristiaeth
Cylch yr Iaith.

Annwyl Olygydd,
7 Winkfield Road
Windsor
Berks
10fed Awst



Annwyl olygydd,
Roedd yn bleser mawr i mi ddarllen yn y Llais am lwyddiant Stephen Roberts fel aelod o Dîm Pysgota Cymru.

Cefais y fraint o bysgota, yn hogyn tua deuddeg oed, efo'i dad, Gwilym Llain, mewn cwch ar Lyn Ogwen. Codi'n fore a tua dwsin o o frithyll hyfryd wedi eu dal cyn i rai o bobl yr ardal gael brecwast.

Rwy'n cofio hefyd mynd efo fo i Lyn Anafon, uwchben Aber, a fy ewythr Emlyn Jones (Embo), y ddau yn ffrindiau mawr. Pryf genwair oedd yn llwyddiannus y diwrnod hwnnw a llawer haws na lluchio pluan dros wyneb y dŵr!

Roedd Gwilym yn athro caredig a rwy'n falch fod Stephan yn medru cynrychioli ei wlad a cadw crefft ei daid i'r dyfodol yr un amser.

Pob lwc i ti Stephan yn y gystadleuaeth nesaf.

Cofion cywir

 **John Ffrancon Griffiths**
(Maes Coetmor gynt)

Diolch gan Achub y Plant

Rydym yn falch o gyhoeddi ein bod wedi llwyddo i godi dros £5,000 ar ein stondin yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Tregaron tuag at gefnogi ein gwaith yn helpu plant a theuluoedd yma yng Nghymru ac yn fyd-eang.

Fel gwirfoddolwyr i'r elusen fe aethom ati i gasglu gemwaith o bob lliw a llun a hoffem ddiolch o waelod calon i'ch darllenwyr a ymatebodd mor frwd i'r galw ac a gyfrannodd yn hael a hefyd i'r rhai a alwodd draw i brynu.

Diolch hefyd i aelodau Merched y Wawr, Sefydliad y Merched a chymdeithas y Soroptimyddion yng Nghymru. Roedd ein stondin yn ogof o drysorau a phawb yn falch o fachu borgen.

Gwerthfawrogwn hefyd gefnogaeth rhai cwmnïau a busnesau lleol a gyfrannodd wobrau mor hael tuag at ein raffl fawreddog.

Yn ogystal â chodi arian roedd yn gyfle gwyb i godi ymwybyddiaeth o waith yr elusen yn ceisio mynd i'r afael

gyda thlodi plant a helpu teuluoedd sy'n ei chael yn anodd i ddal deupen llinyn ynghyd ar hyn o bryd yn sgil yr argyfwng costau byw. Mae'r elusen hefyd yn flaenllaw yn helpu plant sy'n cael eu heffeithio gan wrthdaro, newid hinsawdd a newyn mewn gwledydd fel Wcráin ac Affganistan ac yn nwyrain Affrica.

Ac er ei bod yn ddiwrnod chwilboeth ynghanol mis Awst, cawsom ymweliad gan Siôn Corn oedd yn frwd dros adael i bobl

wybod am Ddiwrnod Siwmpwr Nadolig eleni ar ddydd Iau, 8fed o Ragfyr. Cofiwch y dyddiad!

Diolch o galon i bawb am eu cefnogaeth,

Alison Wood,
Cangen Ynys Môn
Emma Berry, Cangen Penarth
Melanie Simmonds, Pennaeth
Achub y Plant Cymru



G.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Timber & Builders' Merchants

Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinnel

C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau yn Llangefni a Llanrwst.



 Bethesda 01248 600 045

 bethesda@cljonesltd.co.uk

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280) ionawynbangor@gmail.com

Llongyfarchiadau i Hannah Gao, 11 Pentref am lwyddiant rhagorol yn arholiadau TGAU ac ar ennill Ysgoloriaeth i Goleg Rydal Penrhos, Bae Colwyn.

Mae ei chwaer Esther newydd gwbwlhau ei hail flwyddyn yn y Coleg Imperial, ac wedi cael sicrhàd o swydd i wneud â HS2.

Llongyfarchiadau i Ffion Mair, merch Tudor ac Olwen, Coed Hywel, ar ei phriodas â Dion o Rachub. Athrawes yn Llanfairfechan yw Ffion, a Dion yn Adeiladwr. Pôb hapusrwydd iddynt yn eu Cartef Newydd.

Rydym yn meddwl am Nain Ffion, sef Mrs Rhianwen Jones, Bryn Awel, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Eryri. Cofion ati.

Eglwys Sant Tegai, Llandygai
Gwasanaeth yn yr adeilad o'r diwedd!

Bu criw o blwyfolion a ffrindiau'r eglwys o dan arweiniad Nerys Jones yn brysur



O'r chwith i'r dde: Y Parch John Bleazard, Y Parch Ddr. Gareth Lloyd a'r Parch Sara Roberts ar ddiwedd gwasanaeth ail-agor St Tegai

iawn ddiwedd Gorffennaf a dechrau Awst wrth iddynt glirio a glanhau'r eglwys ar gyfer y gwasanaeth cyntaf yn yr adeilad ers dwy flynedd a phedwar mis! Roedd yn wasanaeth hirddisgwyliedig gan y gynulleidfa a phleser oedd cael agor y drws ar Orffennaf 31ain. Edrychai'r eglwys yn hardd iawn gyda blodau yn addurno pob man. Daeth lluo o gyfeillion a

chefnogwyr o'r pentref ac o bob eglwys ym Mro Ogwen i gymryd rhan yn y dathliad. Arweinwyd y gwasanaeth gan ein Ficer, y Parch Ddr. Gareth Lloyd gyda phregeth gan y Parch John Bleazard a gweddïau gan y Parch Sara Roberts. Gair o ddiolch i'r criw bach fyddlon a fu yn brysur yn codi arian dros y Clo, yn gofalu am y fynwent a'r adeilad ac yn clirio,

llnau ac addurno yr eglwys ar ol i'r gweithwyr orffen eu gwaith ar y wal i'r gogledd.

Llongyfarchiadau
Dymuniadau da i Mrs Morwena Bean, aelod ffyddlon yn yr eglwys ar achlysur ei phenblwydd yn 80 mlwydd oed ar Awst 23ain. Gobeithio eich bod wedi mwynhau eich diwrnod arbennig, Morwena!

Adferiad Buan
Dymunwn wellhad buan i bawb yn y gynulleidfa sy'n cael triniaeth neu brofion meddygol ar hyn o bryd.

Gwasanaethau Eglwys Sant Tegai mis Medi
Medi 11eg - Cymun Bendigaid am 11.00 y.b.
Medi 25ain - Cymun Bendigaid am 11.00 y.b.

Manylion Cyswllt
Mae'r eglwys ar agor! Yn dilyn sefydliad y Parch Ddr Gareth Lloyd fel ein Arweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen, gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol ag ef ar 01248361521 neu gareth.lloyd@cantab.net ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.

Cyngor Cymuned Llandygai

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor ar 23ain o Fehefin yn rhithiol drwy gyfrwng Zoom.

Mi fydd y Cyngor yn rhoi rhodd blynyddol tuag at y Neuaddau a'r Mynwentydd o fewn y plwyf, dyma restr o'r rhoddion eleni:

Neuadd Goffa Mynydd Llandygai	£1100.00
Canolfan Gymunedol Tregarth	£1100.00
Neuadd Talgai	£660.00
Mynwent St Anns	£900.00
Mynwent Eglwys y Gelli	£900.00
Mynwent Eglwys St Tegai	£900.00

Yn ogystal â'r rhoddion uchod, cafwyd ceisiadau am arian gan Ysgol Bodfeurig ac Ysgol Tregarth. Mae'r ddwy ysgol yn awyddus i ddatblygu'r ardal tu allan i'r ysgolion wrth archebu offer newydd a fydd yn datblygu sgiliau corfforol yn ogystal â datblygu sgiliau lles a chymdeithasu'r disgyblion. Penderfynwyd rhoi rhodd o £750 tuag at y ddwy ysgol, ac yn dymuno'n dda iddynt gyda'r prosiectau a gyda'r digwyddiadau codi arian. Derbyniwyd dau gais i lenwi seddi gwag, a chyfetholwyd y canlynol:

Mr Gareth Peris Williams – Sedd St Anns
Anwen Eleri Jones – Sedd St Anns

Croeso mawr i'r aelodau newydd. Mae'r gan y Cyngor 3 sedd wag, 2 sedd yn Ward St Anns a 1 sedd ym mhentref Llandygai. Os oes gennych chi ddiddordeb i lenwi'r seddi gwag, yna cysylltwch â'r Clerc drwy ebost cyngorllandygai@ogwen.org



Bedydd
Daeth ffrindiau o bob cwrdd o'r wlad at ei gilydd i ddathlu bedydd Elin Ann Llewelyn Atkinson ar Awst 7fed. Braint oedd i'r teulu gael y bedydd cyntaf yn yr adeilad ers i'r eglwys ail-agor ar ôl yr atgyweirio. Gwenodd yr haul ar Elin fach a'i rhieni a chafwyd gwasanaeth bendithiol gan y Parch Ddr Gareth Lloyd. Bydd ein Ficer yn brysur iawn gyda thri bedydd arall a dwy briodas yn y dyfodol agos!

Pentir

Cynrig a Carys Hughes, Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318) carys16@hotmail.com

Llongyfarchiadau

Hoffem longyfarch Cefin a Rhian a chriw Ysgol Glanaethwy ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen ac yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

Parchu Pentir

Bydd rhaglen o ddigwyddiadau yn cael ei hysbysebu yn fuan gyda'r gobaiht o drefnu teithiau cerdded a digwyddiad canu gwerin.
Eglwys St. Cedol, Pentir (Nia Roberts, Warden)

Llawdriniaeth

Ym mis Mehefin derbyniodd Mair, Hafod Lon, Rhiwlas lawdriniaeth ar gyfer pen-glin newydd yn Ysbyty Gwynedd, gobeithio fod y ben-glin yn gwella.

Cofion

Anfonwn ein cofion at Gaynor, Glyn Cottage, Nant y Garth sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Gan ddymuno gwellhad buan i chi.
Mae'r un cyfarch yn cael ei anfon i David Emlyn a'r teulu. Nid yw David wedi bod yn dda ei iechyd dros y misoedd diwethaf.

Estynnwn ein cyfarchion at Mai a Vic, y ddau wedi ymgartrefu mewn cartrefi preswyl.

Cydymdeimlad

Brawychwyd y gymuned eglwysig yma yn St. Cedol gyda'r newyddion trist fod un o'n haelodau ffyddlon wedi ein gadael yn sydyn ar y 3ydd Awst. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at deulu agos a theulu estynedig y ddiweddar Dr Ann Illsley yn eu profedigaeth.

Yr un yw ein neges at deulu'r ddiweddar Mrs Margaret Jones, Rhiwlas, yn eu profedigaeth o golli gwraig, mam a nain annwyl. Mae ein cydymdeimlad dwysaf yn cael ei anfon at ei gŵr Elwyn, y plant Gerallt, Ceri a'u teuluoedd.

Te Bach

Prynhawn Mercher y 3ydd Awst cynhaliwyd ein Te Bach misol. Roedd yn brynhawn llwyddiannus a hwyliog. Enillwyd y wobwr gyntaf yn y raffl gan Jimmy, sef potel o win, yr 2ail wobwr yn mynd i Mair sef siocled a'r 3ydd wobwr i Beryl sef teisennau cri. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Hwn oedd y diwethaf cyn misoedd y gaeaf gan ail ddechrau ar ddydd Mercher y 1af Fawrth i ddatlu gŵyl ein nawddsant.

Hamper Misol

Rydym yn cynnal Raffl Hamper Misol ar themâu gwahanol pob mis er mwyn codi arian i gynnal yr Eglwys. Enillydd hamper mis Mehefin oedd Bethan Jones, sef hamper o ffrwythau a llysiau. Roedd yr hamper yn rhodd gan Ann a Sharon. Aeth yr ail wobwr sef potel gwin i James Frith. Enillydd hamper mis Gorffennaf oedd Mair Roberts, sef hamper Diwrnod Golchi, ac yn rhodd gan Mair. Aeth yr ail wobwr o botel gwin i Alison Ellis.

Hoffwn ddiolch i'r aelodau, eu teuluoedd a'u teuluoedd estynedig am fod mor barod i brynu'r tocynnau raffl, hefyd i aelodau a chyfeillion sydd wedi bod mor hael yn eu rhodd o'r hamperau. Diolch o galon i chi gyd.

Gwasanaethau

Mae gwasanaeth bob bore Sul am 9.30yb ac mae croeso cynnes i bawb ymuno gyda phaned a sgwrs i ddilyn.

Manylion cyswllt

Os am drefnu priodas, bedydd neu unrhyw fater arall yn ymwneud â'r eglwys cysylltwch gyda'r Parch. Dr Gareth Lloyd, Arweinydd Ardal Gweinidogaethol Bro Ogwen gareth.lloyd@cantab.net neu 01248 361521.

Cofiwch fod Nia (warden) 07719 918686 yna i chi os am unrhyw wybodaeth neu am sgwrs.

Cynnyrch lleol ar gael wedi ei ddanfoni i'ch cartref neu i'w gasglu.

Ffordd gyfleus o brynu cynnyrch lleol o safon...

Os ydych angen cymorth, cysylltwch â Liws Enston ar 07862694163 neu lucinda@ogwen.org



#CadwynOgwen
#Lleol

I siopa, ewch i:
www.cadwynogwen.cymru



Cynhyrchwyr:

- Blas Lôn Las
- Cadwyn Ogwen
- Medd Mynydd
- Amser Al
- Inc Pinc
- Cosyn Cymru
- Coffi Derw
- Fferm Pandy
- Madarch Cymru
- Blodeuwedd Botanics
- Tyfu Eryri
- Tyddyn Teg

... a mwy

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

ARWEINYDD CYLCH MEITHRIN
TALYBONT A LLANDYGAI

Mae'r Cylch Meithrin yn chwilio am arweinydd newydd i'r Cylch a gynhelir yn Ysgol Llandygai. Rhaid bod yn rhugl yn y Gymraeg neu yn siaradwr newydd sydd wedi cyrraedd lefel uchel yn y Gymraeg.

Dyddiad cau ar gyfer y swydd
22 Hydref 2022

Cewch ragor a fanylion am y swydd, e.e. cyflog, oriau gwaith, ac ati drwy e-bostio Cadeirydd y Cylch - juliahhammerx@googlemail.com

Emlyn Williams, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE
(07887624459) henbarc13@gmail.com

Capel Carmel

Trefn Gwasanaethau
Medi 18: Parchg. Dewi T. Morris (2.00yp)
Medi 25: Ein Gweinidog. (5.00yp)
Hydref 2: Ein Gweinidog (Cymun am 5.00yp)
Hydref 9: Parchg. Dafydd Coetmor Williams (5.00yp)
Hydref 16: Diolchgarwch (5.00yp)

Ysgol Sul am 10.30 yb.
Clwb Dwylo Pysur – Nos Wener am 6.30 yh.

Yr Ysgol Sul

I gloi gweithgareddau'r Ysgol Sul am yr haf, mi gafodd y plant chwarae gemau ac yna mi gawsom ni barti hwyliog ar fore Sul yn yr Ysgoldy. Roeddem ni wedi gobeithio medru mynd i gae chwarae Rachub i gynnal y gemau ond nid oedd y tywydd yn ddigon braf i wneud hynny. Eto i gyd, mi gawsom ni chwarae gemau o ddyfalu geiriau a chael band taro a chanu wrth orymdeithio o gwmpas y capell! Daeth Mr Neville Hughes atom ni i ganu hefo'i gitar hefyd ac roedd y plant yn morio canu "Defaid William Morgan" hefo fo. Mi aethom ni tu allan i ddrws y capel wedyn i weld dau oen yr oedd Mr David Hughes wedi dod â nhw o Dal-y-Sarn i'w dangos i'r plant a rhoi cyfle i'r plant eu mwytho nhw. Diolch yn fawr i Neville a David am ddod atom ni ac i bawb a gyfranodd tuag at y parti rhai o bobl ifanc Clwb Dwylo Pysur am ddod i helpu hefyd. Croeso cynnes i bawb.

Y plant hefo'r ŵyn bach a gafodd eu gwau, Neville a'i gitar, a David a Cadi hefo'r ddau oen go iawn.

Y mae'r datblygiad yng Nghae Rhosydd yn mynd yn ei flaen, ond gyda goleuadau traffig yn Llwyn Bleddyn oherwydd yr angen i greu wal cynnal a phalmant. Mae nifer yn synnu at faint y craen sy'n cael ei ddefnyddio.

Codwyd nifer o faterion diogelwch yn Llwyn Bleddyn o'r fynwent i Bryn Bella, gan gynghorwyr cymunedol Ward Rachub yng nghyfarfod Cyngor Bethesda. Penderfynodd y cyngor i dynnu sylw Cyngor Gwynedd at y peryglon.

Llongyfarchwn Owain a Hannah Morgan (Lôn Newydd) am ennill graddau efo anrhydedd, a'r nifer o'r ardal sydd wedi llwyddo yn eu harholiadau T.G.A.U a Safon Uwch. Hefyd, llongyfarchwn Katie Midwinter (Ffordd y Mynydd) ar ei chyfraniadau i banel chwaraeon Radio Cymru.

Cydymdeimlwn â Gillian Griffith (Foel Ogwen) a'r teulu, wedi marwolaeth ei gŵr Dafydd.

Dymunwn yn dda i Gruff Rhys efo ei opera yn seiliedig ar y prif-fardd Hedd Wyn.

Deallwn fod rhai o'r trigolion sydd yn byw wrth ymyl y dafarn, wedi cwyno wrth Gyngor Gwynedd am iddynt gael eu haflonyddu ar adegau arbennig yn ddiweddar.



golli ym mis Ebrill. Hoffem hefyd ddiolch am yr haelioni mawr a ddangoswyd drwy roddion ariannol yn dilyn ei farwolaeth. Codwyd dros fil o bunnoedd, a roddwyd i'r Gymdeithas Parkinson's er cof amdano

Cydymdeimlo

Rydym ni'n cydymdeimlo gyda Helen ac Arfon Evans, Erw Las; a Lowri a Gareth Evans, Mignant ar golli tad a thad yng nghyfraith annwyl, sef Mr Joe Evans, Glanffrydlas, Bethesda yn ystod y mis diwethaf. Rydym ni'n cydymdeimlo â'i deulu i gyd hefyd yn eu profedigaeth.

Dymuno gwellhad

Anfonwn ein cofion at Mr Charles Doyle ar ôl iddo gael llawdriniaeth sylweddol yn Ysbyty Glan Clwyd yn ystod yr haf. Mae Charles yn gwella yn ara' deg ac rydym ni'n dymuno'r gorau iddo am wellhad buan.

Nid yw Mr Keith Thomas wedi bod yn dda iawn yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mae Keith

Hoffai Ann a Selwyn, 5 Bron Arfon, ddiolch o galon am yr holl gyfarchion y cafwyd ar achlysur eu Penblwydd Priodas Aur yn ddiweddar

Gair o ddiolch
Hoffai teulu'r diweddar Ken Morgan, Rachub, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd dros y misoedd diwethaf yn dilyn ei

Dymunai Gwilym Rees Evans, Ceunant, Llanllechid, ddiolch i bawb am bob dim wrth iddo ddathlu ei benblwydd yn 90 ym Mis Gorffennaf.



wedi bod yn cael profion yn yr ysbyty ac anfonwn ein cofion â'n dymuniadau gorau ato yntau hefyd.

Mae Mr Godfrey Northam yn parhau i dderbyn triniaeth dan ofal Ysbyty Gwynedd. Mae o wedi gweld gwelliant yn ei iechyd ers ei arhosiad byr yn yr ysbyty rai misoedd yn ôl ac rydym ni'n gobeithio y bydd y gwelliant hwnnw'n parhau. Ein dymuniadau gorau iddo yntau hefyd.

Mae Mrs Betty Jones, Caergroes wedi ymgartrefu ym Mhlas Ogwen, Bethesda erbyn hyn. Rydym ni'n anfon ein cofion gorau ati hithau yn ogystal ag aelodau eraill sy'n anhwylyd neu'n gaeth i'w cartrefi ar hyn o bryd.

Diolch

Mae angen rhoi diolch arbennig i bedwar o blith ein hathrawon ni sydd wedi ymroi i'w gwaith am lawer iawn o flynyddoedd. Mae Mrs Margaret Bryn, Mrs Wendy Jones a Mrs Helen Jones wedi bod yn athrawon am dros 30 o flynyddoedd erbyn hyn a diolch iddyn nhw am eu gwaith ymroddgar a ffyddlon. Mae diolch arbennig iawn i Mr Godfrey Northam sydd wedi bod yn athro Ysgol Sul yng Ngharmel am 50 o flynyddoedd eleni. Diolch o waelod calon iddo fo am ei waith ardderchog hefo'r plant. Unwaith eto, diolch yn fawr i'r pedwar ohonyn nhw am eu gwaith.

Clwb Hanes
Rachub a
Llanllechid

‘Hanes
Adeiladu'r A5'

gan
Gari Wyn Jones
Nos Fercher
Medi 28ain
am 7 o'r gloch

YN Y CLWB CRICED

Clwb Ffermwyr Ifanc
Dyffryn Ogwen



Croesawu ymwelydd o Ogledd Iwerddon.
Ym Mis Gorffennaf, cawsom groesawu ymwelydd o glwb Ffermwyr Ifanc Trillick, Gogledd Iwerddon o'r enw Peter Graham. Trefnodd y clwb noson o rownderi a barbeciw ar gaeau fferm Tŷ Newydd i groesawu Peter. Yn ystod yr wythnos, aethom fel clwb i ymweld â fferm godro defaid ar Ynys Môn, fferm ieir Crugeran, Coleg Glynllifon a ffermydd lleol yr ardal. Ar ddiwedd ei ymweliad â chlwb Dyffryn Ogwen danfonwyd Peter at glwb Ysbyty Ifan i barhau â'i daith. Hoffwn ddiolch i Cari a Bryan Griffiths a'r teulu, Ffordd Bangor am gynnig lle i Peter yn ystod ei gyfnod yma. Diolch i Sallie, Iwan a gweddill teulu Harper, Tŷ Newydd, hefyd am y croeso cynnes a'r gwaith trefnu. Diolch i'r aelodau a phawb fu'n rhan o'r ymweliad. Rydym yn siwr bod Peter wedi mwynhau crwydro'r ardal!

Mae hi'n flwyddyn newydd i Glwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen ac rydym ni yn barod i groesawu aelodau newydd i'n clwb. Croeso i unrhyw un o flwyddyn 9 ac i fyny i ymuno ni. Mae gwybodaeth am nosweithiau cyfarfod ar ein tudalen facebook Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen, neu cysylltwch â ni ar ein e-bost cffidyffrynogwen@gmail.com. Edrychwn ymlaen at groesawu wynebau newydd a chael blwyddyn arall gwerth chweil!



Clwb Camera Dyffryn Ogwen

Rhaglen 2022/23 – Cefnfaes 7.30

Dyddiad		Sylwadau
5/10/22	Noson efo Gareth Jenkins	
26/10/22	Diane Seddon "Lluniau Creadigol"	**CYFARFOD ZOOM**
9/11/22	Cystadleuaeth Agored	Sgorio gan y Clwb
05/11/22 Sad	Bore Coffi i helpu Diabetes Cymru	9am-12pm, Cefnfaes
7/12/22	Margaret Salisbury "Lluniau Teithio"	
4/1/22	Mike Blackburn "Tymhorau Eryri"	
1/2/23	Cystadleuaeth - "Carreg"	Beirniad: Andy Polokovski
15/2/23	Mike Martin "Tynnu Lluniau pobl"	**CYFARFOD ZOOM**
1/3/23	Alun Williams "80 gradd 49 munud i'r gogledd"	
5/4/23	Noson Aelodau	**Llyfrgell**
3/5/23	Cyfarfod Blynnyddol	

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda (600853)
Barbara Jones, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

Mae'n anodd credu bod hi'n amser inni anfon newyddion i 'Lais Ogwan' yn barod. Mi daerwn i fod y gwyliau'n mynd yn gynt ac yn gynt bob blwyddyn! Fel ym mhob man hyd y byd, cymysgedd o'r llon a'r lleddf a gawsom yn ardal Talybont dros yr Haf.

Llongyfarchiadau

Clywsom eisoes am lwyddiant Cally Jones, 23 Cae Gwigin ac Emma Hughes, 18 Cae Gwigin, yn eu harholiadau nyrsio. Ym mis Gorffennaf, yn ystod seremonïau graddio Coleg Prifysgol Bangor, cafodd y ddwy eu 'capio' ; penllanw ar dair blynedd o waith caled iawn. Gwyn eu byd y cleifion ffodus a gaiff Cally neu Emma i dendio arnynt.

Mae Cara Lois, 75 Bro Emrys, wedi graddio mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol, ac wedi cael swydd yn Ysgol Pendalar, Caernarfon. 'Fedra'i ddim meddwl am neb gwell na Cara i weithio mewn Ysgol Arbennig. Pwy bynnag ddaw o dan ei hadain bydd wrth ei fodd efo hi. Ar Awst 3ydd, cafodd reswm arall i ddathlu, gan iddi droi yn 21 oed. Dymunwn bob bendith a llwyddiant at y dyfodol iti, Cara.

Llongyfarchiadau gwresog i Cai Smith, 47 Bro Emrys, a basiodd ei arholiadau gradd yn anrhydeddus iawn. Bydd yn dechrau ar gwrs MSc mewn Cyfrifiadureg yn fuan. Pob hwyl iti, Cai.

Cawsom wybod cyn y gwyliau fod gennym Filfeddyg newydd yn ein plith. Y tro hwn, llongyfarchwn Ddeintydd newydd. Mae Ellie Porter-Jones, 16 Bro Emrys, wedi gorffen ei hyfforddiant hir gydag anrhydedd, a bydd yn mynd i weithio mewn Deintyddfa yn Sheffield.

Ellie yw'r ail Ddeintydd yn y teulu. Mae Callum, ei brawd, mewn practis arall yn Sheffield ers 3 blynedd bellach. Byddai'n braf gweld y ddau ohonynt yn dod yn ôl ffor' hyn ryw ddiwrnod. Mae gwir angen deintyddion arnom, yn enwedig rhai clên fel Callum ac Ellie.

Mae Seren Unsted, 3 Dolhelyg, yn cychwyn ar gwrs Glanweithydd/Therapydd Deintyddol o dan adain Prifysgol Bangor. Mae'n debyg bydd rhaid iddi symud o le i le yng Nghymru, wrth iddi gwblhau y gwahanol rannau o'r cwrs gradd, ond 'wneith hynny ddim poeni Seren; mae hi wrth ei bodd yn gyrru car.

Pob hwyl iti, Seren. Rydw i'n siwr y byddi'n mwynhau'r gwaith yn fawr iawn.

Bydd Mathew, mab hynaf Phil a Pauline, 29 Bro Emrys, yn mynd i Brifysgol Manceinion i astudio Peirianeg, ar gefn y pedwar "A Serennog" a gafodd yn ei arholiadau Lefel A. Dipyn o gamp, Mathew. Da iawn chdi !

Anfonwn ddymuniadau gorau i Hannah Porter sy'n gwneud gwaith gwirfoddol efo Byddin yr Iachawdwriaeth yn Llundain, cyn penderfynu ar y cam nesaf yn ei gyrfa. Bydd y profiad a gaiff yno yn siwr o dalu ar ei ganfed iddi.

Priodasau

Ar ddydd Sul, Awst 14eg, cynhaliwyd priodas Wil a Laura, ei ddyweddi, yng Ngwesty'r Oriel, Llanelwy. Mab ieuengaf Bethan a Mark Kendrick, 4 Lôn Ddŵr yw Wil, a mae gwreiddiau Laura yn ardal y Rhyl. Oherwydd y tywydd ardderchog, gellid cynnal y gwasanaeth yng ngardd y Gwesty, o dan y coed. Cafodd pawb ddiwrnod i'w gofio.

Dymunwn bob dedwyddwch a bendith iddynt yn eu cartref ym Mhensarn, Abergele. Mae Nain Rita a a Taid Hughie yn dal i bwysu'n daer arnynt i beidio âg anghofio'r ffordd i Dalybont!



Josh a Harriet yn gadael yr eglwys.

Yr wythnos wedyn, ar ddydd Sadwrn, Awst 20ed, cynhaliwyd priodas Josh Gross a Harriet Riding, 5 Dolhelyg, yn Eglwys Llandygai; y briodas gyntaf wedi i'r Eglwys ail-agor ei drysau. Yn dilyn y Gwasanaeth, aethant i lawr y ffordd i ddathlu efo theulu a ffrindiau yn Neuadd Hendre, Talybont.

Mab Vernon a Julie, 33 Bro Emrys yw Josh, a Hattie yn ferch i Richard ac Alex o Chorley, Sir Gaerhirfryn. Byddwn yn eu colli o Ddolhelyg cyn bo hir, pan ânt i fyw i 51 Bro Emrys. Dymunwn bob hapusrwydd a bendith iddynt yn eu cartref newydd.



Priodas Wil a Laura.

Gyfeillion, dyma'r enwau a ddaeth i law cyn inni anfon deunydd i'r Wasg.

Dymunwn lwyddiant a boddhad i bob un o'n pobl ifainc, lle bynnag y bônt; boed yndilyn cwrs coleg; mewn prentisiaeth, neu'n mentro i swydd am y tro cyntaf.

Ac i bawb sy'n dechrau'r tymor hwn mewn ysgol neu ddosbarth newydd, mwynhewch, gweithiwch yn galed a chymerwch fantais o bob cyfle ddaw i'ch rhan.

Rydym yn falch ohonoch i gyd.

Cymydogion newydd

Estynnwn groeso cynnes i Tecwyn a Morfen Williams i 1 Bro Emrys. O Ddeiniolen y daw Tecwyn yn wreiddiol, a Morfen o Lanberis. Cymerodd beth amser iddynt ail-wneud y tŷ, ond maen' nhw yma ers mis Gorffennaf. Pobl brysur ydyn nhw, ond gobeithio y cawn eu cwmni mewn ambell i weithgaredd yn y pentref dros y misoedd nesaf.

Mae Malcolm o Fethesda wedi dod i fyw i 4 Cae Bach. Gobeithio y bydd yntau, hefyd, yn hapus yn ein plith.

Cyfarchion Penblwydd

Dymuniadau gorau i Jim Langley, 7 Dolhelyg sydd wedi dathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar. Mae o'n dysgu Cymraeg yn ddygn, ac yn ymdrechu'n deg i'w defnyddio yn ei waith bob dydd. Dalia ati, Jim!

Y ci colledig

Bu hen chwilio hyd lwybrau'r mynydd ac ym mhob man pan aeth Cadi, ci bach teulu 61 Bro Emrys, ar goll ar Pen yr Ole Wen. Penderfynodd Gamel wersyllu dros nos yn y gobaith y deuai Cadi i chwilio amdanynt hwythau, ond ni fu sôn amdani. Yna, drwy gymorth 'Facebook', cafwyd hyd iddi'n iach a diogel, wedi bod ar grwydr am 27 awr. Peth handi iawn yw'r dechnoleg gyfoes weithiau.

Brysiwch wella

Mae Idris Thomas 16. Dolhelyg, yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd. Cafodd ei benblwydd yno ar Awst 19eg, yn 94 oed. Brysiwch wella Idris, ichi gael dathlu'n iawn efo'r teulu.

Mae nifer o drigolion Talybont wedi derbyn triniaeth, mewn ysbytai pell ac agos, am wahanol anhwylderau dros yr Haf. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddynt i gyd.

Newid Cartref

Mae Ifan, fy ngŵr, yng Nghartref Ceris Newydd ers rhai wythnosau bellach. Mae o'n bur wael, ond yn derbyn gofal tyner gan y Staff i gyd. Yno hefyd, mae lola Williams, gynt o 5 Cae Gwigin. Oherwydd cyfyngiadau Covid, ni fu'n bosibl inni ymweld â hi am fisoedd lawer. Mae hi'n dioddef sgil effeithiau strôc sydd, fwy na heb, wedi mynd â'i lleferydd, ond mae crybwyll enwau rhai o'i hen ffrindiau o Dalybont yn codi gwên bob tro.

Profedigaeth

Ar fore Sadwrn, Awst 6ed, yn dilyn cystudd blin a ddioddefodd yn ddewr a di-rwgnach, bu farw'r annwyl fonheddwr Brian Johnson, 9 Bro Emrys, cymydog da, cymwynaswr, a ffrind i lawer. Gedy ei fab, Julian, ei ferch, Jane, a'i phriod John.

Bu Brian yn was ffyddon i'w eglwys a'i Arglwydd ar hyd ei oes. Ef oedd yn bennaf gyfrifol am edrych ar ôl Eglwys Babyddol Bethesda, nes iddi orfod cau. Bydd bwlch anferth ar ei ôl yn Eglwys Ein Harglwyddes a Sant Iago, Bangor Uchaf, lle bu'n weithgar hyd y diwedd, a lle cyhaliwyd ei wasanaeth angladdol ar Awst 17eg.

Rhodddwyd gweddillion Brian i orffwys gyda'i ddiweddar wraig, June, ym mynwent Eglwys S. Cross. Coffa da am y ddau ohonynt.

Gobeithio y medrwn ni, bobl Talybont, fod yn gefn i Julian yn ei golled enfawr. Mae o'n gwneud cymaint i ni o gwmpas y pentref. Dyma gyfle inni dalu'n ôl iddo am ei gymorth a'i garedigwydd.

Eglwys St Cross

Gwasanaethau'r Sul

Erbyn hyn, rydym wedi croesawu ein Ficer newydd, y Parch Ddr Gareth Lloyd, i Bro Ogwen, ac mae Eglwys St Tegai wedi ail-agor ar ôl cyfnod hir oherwydd nid yn unig y pandemig ond hefyd gwaith atgyweirio. Mae Rhan I o'r gwaith wedi gorffen bellach, a disgwylir cychwyn Rhan II cyn bo hir.

Ar hyn o bryd, cynhelir gwasanaethau'r Sul am 11 o'r gloch yn Eglwys St Cross ac Eglwys St Tegai bob yn ail fel a ganlyn:
Sul 1af yn y mis - St Cross
2il Sul - St Tegai
3ydd Sul - St Cross
4ydd Sul - St Tegai

Mae St Cross yn cynnal gwasanaeth Diolchgarwch am y Cynhaeaf ddydd Sul 18fed Medi am 11 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb, wrth gwrs!

Am fanylion pellach neu i holi am Ymweliadau Bugeiliol, Cymun Cartref, Bedydd, Priodasau, Angladdau neu Gladdu ym mynwent yr eglwys, cysylltwch â'r Ficer, y Parchedig Ddr Gareth Lloyd: gareth.lloyd@cantab.net 01248 361521; neu Warden Eglwys St Cross: Catrin Hobson 07881 802882

Profedigaeth

Cydymdeimlwn â Julian a Jane, mab a merch Brian Johnson, 9 Bro Emrys, a fu farw yn oriau man y bore, Awst 6ed. Mae'n drist meddwl na fyddwn yn ei weld yn cerdded o gwmpas y pentref ac ar hyd Lôn Ddwr a Ponc-y-Lôn ar ei ffordd i fynwent St Cross at fedd ei ddiweddar wraig, June. Gwyddom am ei waith ddistaw yn ymweld â chyd-addolwyr yr Eglwys Babyddol lleol ac yn mynd â chymun iddynt os oeddent yn gaeth i'w cartrefi. Cynhaliwyd cynhebrwng Brian ac offeren y meirw ddydd Mercher Awst 17eg, yn Eglwys Ein Harglwyddes a Sant Iago, Bangor, dan ofal y Parchedig Dad Adrian Morrin, a rhodddwyd ef i orffwys ym mynwent St Cross.

Clwb Coffi Talybont

Bydd y Clwb yn ail-gychwyn ar fore Llun, 19 Medi am 10.30 – tan 12.00 yn festri Bethlehem. Byddwn yn cyfarfod 3 gwaith ym mis Hydref, sef 3ydd, 17eg a 31ain. Mae croeso cynnes i bawb!

Capel Bethlehem

Oedfaon (am 2 o'r gloch)
25 Medi: Y Gweinidog.
02 Hydref: Parchg. Eric Jones.
09 Hydref: Y Gweinidog.
16 Hydref: Parchg. Gerallt Lloyd Evans.
23 Hydref: Y Gweinidog.
30 Hydref: Parchg. Elwyn Richards.

Croeso cynnes i bawb.
Bwrlwm Bethlehem
Cynhaliwyd cyfarfod cynta'r tymor ar bawn lau. 15 Medi, ac fe fyddwn yn croesawu aelodau hen a newydd bob bythefnos.

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

lsturrs@googlemail.com

JOHN ROBERTS

Paentiwr
Papurwr
Teilsiwyr



Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn meysydd awyr Cludiant Preifat a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

BYSUS D. J. Owens RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATÌ.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

CHRIS GRIFFITHS CYF

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythrau ac unedau gwydr wedi chwythu



18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed

01248 605207

Côr y Penrhyn

gyda Derfel Roberts



Côr y Penrhyn Medi 2022 Cymdeithasau'n cydweithio

Ar ôl gwyliau'r haf ail gychwynnodd ymarferion y côr ar nos Lun y 5ed o Fedi. Mae 'r côr yn defnyddio Clwb Rygbi Bethesda am gyfnod tra bydd Neuadd Ogwen yn cael ei hadnewyddu, ond ar yr adegau pan nad ydy'r clwb rygbi ar gael mae'r côr yn defnyddio Clwb Criced Bethesda ar gyfer ymarferion. Braf yw gweld cydweithio fel hyn yn digwydd yn Nyffryn Ogwen ac mae'r côr yn naturiol ddigon yn diolch i'r clybiau ac i gapel Jerwsalem am eu parodrwydd i fenthycu eu hadeiladau pan fydd angen.

Canu ar Radio Cymru Medi 7

Fel mae'n digwydd mae mis Medi eleni yn digwydd bod yn amser eithriadol o bwysig yn hanes y côr. Bydd perfformiad y côr ar raglen Aled Hughes wedi bod ac fe ganwyd tair cân o raglen gyson



y côr. Gobeithio i chi gael cyfle i glywed y rhaglen ac mae'n sicr bod modd i chi wrando arni eto ar BBC iplayer neu dechnoleg tebyg.

Pen Ceunant Isaf Medi 16

Roedd y côr i fod i ganu yno ond gohiriwyd yr ymweliad oherwydd marwolaeth y frenhines. Un o Fynydd Llandygai ydy'r perchennog.

Nigel Owens yn Llanfairfechan Medi 17

Bydd cyfarfod arall o'r côr wedi digwydd erbyn i chi ddarllen y rhifyn hwn o Lais Ogwan. Llwyddodd y côr i gael un o bersonoliaethau Cymreig a Chymraeg amlycaf ein gwlad i ddod atom i gynnal noswaith o rannu atgofion a phrofiadau gyda chynulleidfawr yn Neuadd y

Dref Llanfairfechan. Mae Nigel Owens, y cyn ddyfarnwr rygbi rhyngwladol, yn wyneb amlwg i bawb sy'n gwytlïo rygbi ar y teledu ond hefyd mae'n rhan o'r tîm hwyliog a doniol sy'n cyflwyno 'Jonathan' ar S4C. Perfformiodd y côr nifer o ddarnau ar ddechrau'r noson cyn galw ar Nigel i'r llwyfan i'n diddori.

Noson Agored Medi 19

Dyma gyfle i unrhyw un sy'n ystyried dod i ganu gyda chôr meibion i ddod draw i Glwb Criced a Bowlio Bethesda i wrando ar y côr yn ymarfer ac i gael prawf lleisiol i weld â pha adran o'r côr y byddai'n medru ymuno. Mae croeso i unrhyw ddyn neu w'r ifanc i ymaelodi ag un o gorau meibion prysuraf a mwyaf poblogaidd Cymru gan gael cyfle i deithio a pherfformio ar lwyfannau ymhob rhan o Gymru a'r byd.

Côr Merched Marsh o Huddersfield gyda Chôr y Penrhyn yn Eglwys Glanogwen Medi 24

Bydd hon yn noson eithriadol yn Nyffryn Ogwen gan y bydd yr elw'n mynd at waith cynnal a chadw tŵr yr eglwys. Mae tŵr Eglwys Glanogwen yn nodwedd arbennig o Fethesda a Dyffryn Ogwen ac mae'n

bwysig ein bod i gyd yn cefnogi'r ymgyrch i gadw'r tŵr a'r eglwys mewn cyflwr da fel y gall cenedlaethau'r dyfodol eu defnyddio a'u mwynhau. Mae'r tŵr wedi ei restru fel adeilad o ddiddordeb hanesyddol a phensaernïol pwysig ac mae hynny'n golygu na ellir ei chwalu na newid ei ffurf i arbed costau.

Dewch i gefnogi'r cyngerdd arbennig hwn.

Ar nos Lun, 25 Gorffennaf, cafodd Gareth Huws (Tenor 1) ei gyflwyno gyda llechen wedi'i harysgrifo gydag englyn i ddathlu ei aelodaeth o 50 mlynedd yn y côr.

Yn y llun gwelir Owain Arwel, yr arweinydd, a Wyn Roberts, y cadeirydd yn cyflwyno'r llechen i Gareth.



Cyngerdd Eglwys Glanogwen

Côr y Penrhyn yn cyflwyno
Marsh Ladies Choir (Huddersfield)
24 Medi 2022 am 7 o'r gloch

Tocynnau ar gael:-
Siop Ogwen
Aelodau Côr y Penrhyn
Aelodau Eglwys Glanogwen
01248 600371 a 600530

(Elw: Apêl Tŵr Eglwys Glanogwen)

Nyth y Gân



CWM IDWAL

Garw, garegog erwau, yn feini
Hyd fynydd a'i lethrau,
Yn stôr o lwyd glystyrau
Yn y cwm o'n cylch yn cau.

Y GWANWYN

Daeth tymor eto i fynd i'r ardd,
A hardd ei gweled hi
Yn dyfiant newydd yn ei dro
A'i gyffro ynom ni.

Mae llu o liwiau yno'n awr,
A'r sawr yn hynod wych
Yn cael ei gario gan y gwynt
l'w hynt drwy'r awyr sych.

Mor ddedwydd ydyw'r profiad hwn,
Yn grwn, yn ddarlun clir
O weld y ffrwydrad lliwgar, llawn
Yn dangos dawn y tir.

Ymestyn hefyd mae yr awr,
Daw newid mawr drwy'r wlad
O ddeffro nifer, mawr a bach,
Yn iach i gael parhad.

Dafydd Morris

COED TÂN

Derwen, onnen a ffawydden,
Draenen wen a hi'r gelynnen,
Ydi'r prenau gorau fu
Erioed ar gael at gnesu tŷ.

Ond y wernen a'r helygen,
Y boplysen ddu a'r llwyfen
Ydi'r gwaela' o'r holl goed
At gnesu tŷ a fu erioed.

Ywen, derwen a ffawydden,
Pren y gastan a'r fasarnen,
Cedwch rhain yn sych am flwyddyn
A mwynhewch y tanllwyth wedyn.

Buan iawn wnaiff bedwen losgi,
Mae'r binwydden yn gwreichioni;
Da i'r galon berarogla
Tân o bren y goeden 'falau.

Os am dân i bobi bara
Ar fyr dro â gwres o'r mwya',
Llosga ddrain a bonion eithin
A chei bobiad anghyffredin.

O'r coed tân sydd yn y byd,
Mae un yn well na'r lleill i gyd;
Boed hi'n las neu'n wlyb neu'n sych,
Mae'r onnen lwyd yn llosgi'n wych.

Howard Huws



Marchnad Ogwen

Hydref 8fed
9.30am - 1pm

Neuadd Ogwen
(os bydd y gwaith yn y
Neuadd wedi ei gwblhau)

www.marchnadogwen.co.uk
Facebook

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



A.G.L.

Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd lau
Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyio ar gyfer partion o
bob math - plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Prisiau rhesymol

ORIAU AGOR
D. Mercher, lau, Gwener 8.00 - 2.30

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi



Arfbais Douglas Arms

Cwrw Casgen - Gardd Gwrw

ORIAU AGOR

Sul, Llun a Mawrth - wedi cau
Mercher, lau a Gwener 18.00 - 23.00
Sadwrn 15.30 - 23.00

01248 602537





Dilynwch Llais Ogwan ar Trydar @Llais_Ogwan


Mae'r nerth a greodd y byd ac a gododd Iesu Grist o farw'n fyw yn cael ei gynnig i ninnau, i'n galluogi i fyw yn ufudd i Dduw ac i dystio i'r gras a'r cariad a ddangoswyd yn Iesu Grist. Y rhyfeddod mawr yw bod Duw yn defnyddio ei bobl yn ei wasanaeth ac yn eu nerthu i gyflawni ei waith. Y rhyfeddod mwy yw ei bod yn bosibl iddo wneud hynny i mi. Ond tristwch pethau yw fy mod i, fel llawer un arall, er gwybod hyn yn mynnu gwneud popeth yn fy nghryfder pitw fy hun. Roeddwn yn ddigon call i gydnabod nad oedd obaith i mi wneud yr hyn a wnâi dynion y faniau. On na fyddwn hefyd yn ddigon call i gydnabod f'anallu i wneud gwaith Duw ac i geisio ganddo'r nerth y mae ef wedi ei addo ac y mae'n ei gynnig i mi trwy ei Ysbryd Sanctaidd.

**DIFYRION
DIGIDOL**

Deian ap Rhisiart

Cysylltwch gyda mi deian.apRhisiart@wales.coop os hoffech gymorth digidol, gyngor neu fenthg y tabledi neu eisiau trefnu hyfforddiant gyda Cymunedau Digidol Cymru.

CROESAIR



AR DRAWS

- 1 Doeth, o edrych yn ôl, oedd peidio tynhau (3)
- 3 Faint o ferched gwirion oedd yn y tywyllwch (3)
- 5 Yn ôl y ddihareb, hwn sy'n dod â'r mwyaf o rwystr (4)
- 8 O'i baratoi yn ofalus, dyma fy newis o bysgodyn blasus fel yr eog (5)
- 9 Heb fawr o amrywiaeth. Diflas yw cân fel hon (7)
- 10 Yn ddiofal yr aeth dau drwy ddyffryn yn ne Gwynedd (7)
- 12 Canu wrth dorri gwallt efallai ar lwyfan clasurol iawn, a hollol wahanol i 9 Ar Draws (5)
- 13 Mae'n deircoes neu mewn sach ym mabolgampau'r ysgol (3)
- 15 Cyfieithu stori yn gywir (5)
- 17 Stori gynhyrfus, '- - - a chyffro' (3)
- 19 Yr hyn a ddaliwyd neu a gasglwyd (5)
- 20 Yr wythfed gorchymyn o'r deg sy'n rhybuddio rhag gwneud hyn (7)
- 23 Clywed yn glir o flaen pum cant, a chytuno â'r cyfan (7)
- 24 Cyntaf, ail neu drydydd yn 13 Ar Draws (5)
- 25 Awdur anhysbys a dienw (4)
- 26 Gair rhoi dewis (3)
- 27 Lot i Abraham (3)

SIOP
OGWEN

yn cynnig gwasanaeth

CLIC A
CHASGLU

Llawer o Nwyddau Newydd
gan Grefftwyr Newydd
wedi cyrraedd y siop

Hefyd

Llu o gardiau cyfarch ar gyfer pob
achlysur. Cysylltwch â'r siop ar
yffôn **07394 905881**

neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i
wneud trefniadau casglu a thalu

CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL



ATEBION GORFFENNAF/AWST 2022

AR DRAWS 1 Lles, 3 Gall, 5 Pallu, 8 Egino, 9 Gwargam, 10 Gitarau, 12 Tudur, 13 Neb, 15 Creyr, 17 Gem, 19 Cribo, 20 Budreddi, 23 Prifwyl, 24 Segur, 25 Trên, 26 Dau, 27 Dyn
I LAWR 1 Lloergan, 2 Saint, 3 Gwobr, 4 Llygru, 5 Praffter, 6 Llygadog, 7 Amor, 11 Aer, 14 Beiciwr, 15 Clogwyn, 16 Ysu, 18 Meithrin, 19 Copa, 20 Bwled, 21 Dysgu, 22 Ergyd

Croeso nôl wedi seibiant yr haf. Cafwyd nifer o gamgymeriadau y tro hwn. Roedd tri ohonoch wedi cynnig 'ballu' yn lle 'pallu' (5 Ar Draws) a 'braster' yn lle 'praffter' (5 I Lawr). Hefyd cafwyd un 'plastar' yn lle 'praffter'. Cynigion eraill gwallus oedd 'call' yn lle 'gall' (3 Ar Draws), 'cloer' yn lle 'gwobr' (3 I Lawr) ac 'aur' yn hytrach nag 'aer' (11 I Lawr). Yn anffodus cefais nodyn gan y Post Brenhinol yn dweud fod un cynnig heb stamp arno, ac na fyddent yn ei ddosbarthu heb i mi dalu !
Cafwyd atebion cywir gan y canlynol:
Iona Williams, Llanddulas; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Gareth Oliver, Elizabeth Buckley, Rosemary Williams, Tregarth; Doris Shaw, Bangor; Rita Bullock, Gaynor Elis-Williams, Bethesda; Dilys Parry, Jean Vaughan Jones, Rhiwlas.

Mae'r wobr y tro hwn yn mynd i Elizabeth Buckley, 32 Maes Ogwen, Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4NG. Llongyfarchiadau calonnog i chi.

I LAWR

- 1 Swnio fel daioni i'r Fam Fendigaid, ond llewyg oedd (7)
- 2 Wedi cant yn anhrefnus y mae'r criw drwg (5)
- 3 Ond di-sylw, blêr a chyffredin iawn (5)
- 4 Tŷ bach ond efo lle i chwech (5)
- 5 Nid yw'r lôn i Dob, Tregarth yn syth, ond rhaid dygymod â hi (7)
- 6 Diosg pob cerpyn ! (7)
- 7 Sawr ac arogl yn nhafodiaith Dyffryn Ogwen (4)
- 11 Jacob i Abraham (3)
- 14 Pysgodyn bach mewn pot jam o'r afon; ymhell o fod yn 8 Ar Draws (7)
- 15 Mynd ar y trên fach yn ofalus unwaith eto (7)
- 16 "- - - 'r Gwynt", Hwiangerdd Mair - carol (3)
- 18 ITV, S4C, a'r BBC (7)
- 19 Gêm pel fach galed (4)
- 20 Eang ei faint (5)
- 21 Cyniwa'r gwybodaeth (5)
- 22 Dyma oedd Cynan am wneud i'r nico i weld Wil a Megan (5)

Atebion erbyn 7fed Hydref, 2022 **fan bellaf** (ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach) i 'Croesair Medi', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD.

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

©Dr J. Elwyn Hughes



Rhyw fymryn o hanes Eglwys Glanogwen sydd gen i i'w gyflwyno i chi y tro hwn. Ym 1856 y codwyd yr Eglwys a hynny ar dir a roddwyd yn rhodd gan yr Arglwydd Penrhyn (Edward Gordon Douglas Pennant) yng nghanol Bethesda, ryw ganllath oddi wrth y 'Lôn Bost'. Cynlluniwyd yr adeilad gan bensaer adnabyddus yn ei ddydd o'r enw T. H. Wyatt, cyfenw cyfarwydd pan gofiwn i Arthur Wyatt fod yn Rheolwr Chwarel y Penrhyn am gyfnod byr tua diwedd y bedwaredd ar bymtheg.

Yn Byd go iawn Un Nos Ola Leuad, a gyhoeddwyd yn 2007, ceisiais egluro pwy oedd pwy a lle oedd lle yn nofel fawr Caradog Prichard ('y nofel Gymraeg orau a gyhoeddwyd erioed'), soniais fel yr oedd yr awdur wedi cyfeirio at 'Reglwys' drwy'r nofel – sef Eglwys Crist Glanogwen, wrth gwrs. Dyma'n fras yr hyn a ysgrifennais yr adeg honno (gyda geirau'r nofelydd mewn llythrennau italaid):

Yn ôl erthygl yng nghylchgrawn Yr Haul yn 1917, ystyrid Eglwys Glanogwen 'gyda'r harddaf yn y wlad, yn cynnwys eisteddleoedd i saith gant a hanner o bobl ... cydaddolai ynddi un o'r cynulleidfaoedd Cymraeg mwyaf lluosog, mwyaf gweithgar a mwyaf diwylliedig yng Nghymru'. Cofiwn ddisgrifiad yr hogyn bach yn UNOL: 'A dechra meddwl pob math o betha ar ôl gorfadd i lawr, wrth sbïo ar dŵr Reglwys, ac ar gerrig y walia a llechi'r to. Dew, mae'n rhaid ei bod hi'n hen, meddwn i ... ydw i'n siŵr ei bod hi'n edrach yn neis pan oedd hi'n Eglwys newydd, cyn i'r gwynt a'r glaw a'r rhew a'r eira a gwres yr haul i baeddu hi'.

Cofiwn ... fel y byddai'r hogyn bach a'i ffrind, Huw, yn eistedd wrth ymyl ei gilydd bob amser yn y Côr ac am yr adeg honno pan aeth y ddau ati i chwarae pinsio o dan eu gwenwisgoedd: ... 'a faswn i ddim wedi gneud radag honno chwaith taswn i wedi agor fy llygada'n gynt a gweld na fydda Mam Huw byth yn torri'i winadd o. Rho di dy law imi o dan fy syrplan i ac mi rof inna'n llaw i titha, medda Huw. Mi gei di fy mhinsio i ac mi pinsia inna ditha ... dyma fi'n gweiddi O yn ddistaw bach, a Huw yn gwyro i lawr i smalio codi llyfr hymna a troi'i wynab i sbïo arnaf i. Fi sy wedi ennill, medda fo'

Wrth gerdded i lawr yr allt fach sy'n arwain o'r Eglwys, â beddau

o boptu, deuir ym mhen isaf y rhodfa at y Porth ... ar fin y Lôn Bost. Mae'n werth nodi bod Giât Fynwant yn y nofel yn cyfeirio, gan amlaf, at y giât sy'n rhoi mynedfa i'r fynwent o lôn Pant-glas ym mhen uchaf y tir o gwmpas yr Eglwys. Mae'r llwybr sy'n arwain o'r giât honno i lawr at yr Eglwys yn dal yno hyd y dydd heddiw.

Roedd Porth yr Eglwys mewn cyflwr pur ddrwg erbyn dechrau'r 1980au ac oherwydd y pydredd a'r dadfeilio cyffredinol, penderfynwyd ei dynnu i lawr a gosod giatiau metal yn ei le. Dyma lun yr hen borth ...



Roedd rhyw chwarter milltir o ffordd rhwng yr Eglwys a'r Ficerdy a chofia'r hogyn bach yn UNOL fel y byddai'r Côr, ac yntau'n aelod ohono, yn cerdded 'o Reglwys trwy'r Fynwant i Ficrej ... ac yn ôl wedyn o Ficrej i Reglwys a'r Fynwant ar hyd Lôn Bost yma ...'. Does dim rhaid i mi ddweud mai'r hen ficerdy ar ei newydd wedd ydi Plas Ogwen heddiw.

I'w barhau



Steddfod gerddorol

Cafodd Gwydion Rhys, stad Bron Arfon, Rachub, lwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion fis Awst. Enillodd gystadleuaeth Cyfansoddi i ddisgyblion 16 ac o dan 19 oed, a hynny am yr eildro, ar ôl ennill yn Llanrwst yn 2019. Ar gyfer y gystadleuaeth, cyfansoddodd ddau ddarn gwrthgyferbyniol, sef Hwiangerdd i biano a chorn Ffrengig, a Rhapsodi i bumawd (ffliwt, clarinét, ffidil, sielo a phiano). Yn y Cyfansoddiadau, mae'r beirniad, Kate Morgan yn eu disgrifio fel "Dau gyfansoddiad prydferth o gyferbyniol sy'n dal rhuddin y teitlau mewn arddull aeddfed a thrawiadol". Dyma'r drydedd wobr

eisteddfodol i Gwydion ei hennill eleni: daeth yn ail am fedal gyfansoddi Eisteddfod yr Urdd, Sir Ddinbych ac enillodd wobr cyfansoddwr ifanc Eisteddfod Môn, Bro Eisceifiog. Ers blwyddyn, mae Gwydion yn fyfyrwr Cyfansoddi yn y Coleg Cerdd Brenhinol yn Llundain, ble mae'n cael gwersi unigol gan Alison Kay. Roedd wedi cyfansoddi darnau buddugol yr Eisteddfod Genedlaethol yn ôl yn 2020, cyn y cyfnod clo cyntaf, pan oedd yn ddisgybl yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Fel rhan o seremoni cyhoeddi'r enillwyr ym mhabell Encore ar faes yr Eisteddfod, perfformiodd Gwydion a phedwar cyd-aelod o Gerddorfa Genedlaethol

YSGOL BODFEURIG

A hithau'n ddechrau blwyddyn ysgol newydd rydym yn croesawu pawb yn ôl i deulu'r ysgol gan edrych ymlaen am flwyddyn llawn hwyl, profiadau a dysgu! Rydym hefyd yn croesawu rhai plant sy'n dechrau yn ein hysgol am y tro cyntaf. Croeso mawr i bawb! Wrth ddechrau edrych ymlaen gallem hefyd edrych yn ôl i ddiwedd y flwyddyn ysgol ddiwethaf. Cafwyd mis prysur iawn ym mis Gorffennaf. Dyma ychydig fu'n digwydd...

Ymweliad Gelli Gyffwrdd

Ar ôl gorfod gohirio eu hymweliad oherwydd tywydd gwlyb dros ben, llwyddodd dosbarth Idwal i gael amser arbennig yn Gelli Gyffwrdd ar wythnos olaf y tymor. Cawsom ddiwrnod gwych yn mynd o amgylch y parc a pob un wedi ymddwyn yn arbennig! Da iawn chi blant os!



Ffarwelio

Ar ddiwedd y flwyddyn ysgol roedd rhaid ffarwelio gyda Miss Saran Roberts. Daeth Miss Roberts atom fel rhan o gynllun oedd yn rhoi profiad dysgu i athrawon newydd gymhwyso. Cawsom flwyddyn hyfryd yn ei chwmmi a gobeithio ei bod wedi mwynhau'r profiad o ddysgu acw. Pob lwc i'r dyfodol.

Roedd diwedd y tymor hefyd yn amser i ffarwelio gyda plant arbennig blwyddyn 6. Dymunwn pob lwc i bob un ohonynt wrth iddynt ddechrau ar ran nesaf eu bywyd yn yr ysgolion uwchradd. Pob lwc i chi a peidiwch a bod yn ddiarth!

leuenctid Cymru un o'r darnau, sef Rhapsodi. Aelodau eraill y pumawd oedd Lleucu Parri, lanto Williams, Soffia Nicholas a Rémy Segrott.

Nos Fercher yr Eisteddfod, bu Gwydion a'i dad, Stephen Rees, yn cynnal sesiwn ym mhabelll Encore dan y teitl 'Cerddoriaeth dwy genhedlaeth'. Bu'r ddau'n perfformio dewis o'u hoff ddarnau ar y sielo a'r piano, a chanodd Stephen gân werin hefyd fel rhan o'r sioe.

Ar ôl dod adre i Rachub, dywedodd Gwydion:

"Roedd hi'n braf cael bod yn rhan o'r Eisteddfod eto ar ôl

seibiant o dair blynedd. Dw i'n ddiolchgar i'r Eisteddfod am roi'r math yma o gyfleoedd i gerddor ifanc fel fi."

Brynhawn lau'r Eisteddfod, cynhaliodd Prifysgol Bangor brynhawn o ddathlu Canrif o Gerddoriaeth yn y brifysgol, a bu Stephen Rees, ynghyd â Menai Williams, Erw Las, yn rhan o'r dathliadau. Cadeiriodd Stephen sesiwn drafod ar

ddyfodol Cerddoriaeth yn ein hysgolion, a chafodd Menai ei holi gan Guto Puw am ei bywyd a'i gyrfa mewn sesiwn arbennig. Hi hefyd gafodd y fraint o dorri cacen hardd (a blasus!) i ddathlu'r achlysur.



Ymweliad Ropeworks

Os nad ydych yn hoff o uchder yna nid dyma'r trip diwedd blwyddyn i chi! Aeth dosbarth Ogwen am y diwrnod i Ropeworks, Llanberis. Cafwyd diwrnod llawn antur efo llawer o blant dewr iawn! Cafodd pawb brofiad o gwrs rhaffau, rhai yn mentro'n uwch na'i gilydd ond pawb yn herio ei hunain. I ddilyn aeth rhai o'r plant ar swing enfawr yn y coed – tipyn o gamp! Yn y prynhawn symudodd pawb at lyn Padarn i adeiladu rafft a ceisio hwylio ar y llyn. Efallai na lwyddodd pawb i hwylio yn bell iawn ond cafwyd llond gwlad o hwyl yn gwlychu. Diolch i'r staff am ddiwrnod bendigedig.



Bethesda

Mary Jones, maryeds@hotmail.co.uk (07443 047642)
Joe Hughes, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

Penblwydd Arbennig

Penblwydd hapus i Mrs. Jessie Jones, Stryd Glanafon, ar achlysur dathlu'r 80 mlwydd oed ar 2 Awst.

Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i Arfon a Helen Evans, Erw Las, ar yr achlysur hapus o ddathlu 40 mlynedd o fywyd priodasol ar 21 Awst.

Priodas Arian

Llongyfarchiadau i Cledwyn a Jean Thomas, 39 Abercaseg, ar ddathlu 25 mlynedd o fywyd priodasol ar 7 Awst. Maent yn dymuno diolch i bawb am gofio amdanynt.

Dwy Briodas

Ar dydd Sadwrn, 16 Gorffennaf, yn Eglwys Crist Glanogwen, gyda'r ficer, y Parchg/Ddr. Gareth Lloyd yn gwasanaethu, priodwyd Rhian Wyn Williams ac Eric ap Huw Lloyd, y ddau o Fethesda. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da ar gyfer y dyfodol. Llongyfarchiadau calonnog hefyd i Mr. a Mrs. David Parry a briodwyd yn Eglwys Crist Glanogwen ddydd Sadwrn, 27 Awst. Gwasanaethwyd gan y ficer, y Parchg. Ddr. Gareth Lloyd.

Gorffwysfan

Aeth rhai o'r aelodau ar wibdaith ddydd Mercher, 29 Mehefin. Mwynhau coffi yn Nolgellau cyn mynd i'r Trallwng am ginio, ac wedyn ymlaen i weld Gerddi Morton. Diwrnod da iawn! Gan fod Gorffwysfan ar agor erbyn hyn, a ninnau'n cyfarfod ar foreau Llun a Gwener, cofiwch alw i mewn am sgwrs! Cofiwch hefyd am ein Bore Coffi a gynhelir yng Nghefnfaes ar Sadwrn, 17 Medi, 10.00 – 12.00. Bydd croeso i bawb.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at sawl teulu a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar: Andrew a Linda Smith a'r teulu, Ffordd Bangor, wedi colli ei chwaer, Pat Capper, o Fangor, ar 28 Gorffennaf.

Mr. John Jones a Jill, Glan Ffrydlas, ar golli chwaer yng ngyfraith a modryb ym mis Gorffennaf, sef Mrs. Jennie Elizabeth Hughes o Gaernarfon. Teulu'r diweddar Mr. David Griffiths, Llanllechid.

Penblwydd Arbennig

Pob hwyl ar y dathlu i Alan Evans, Erw Las sydd wedi cyrraedd y chwedeg ddiwedd Awst. Gobeithio i ti fwynhau'r dathlu.

Marwolaethau

Glenys Hazel Owen – Ar 3 Awst yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mrs. Glenys Hazel Owen, Maes Coetmor, yn 82 mlwydd oed. Priod annwyl y diweddar Mr. E. Bryan Owen, mam annwyl i Kevin a Siân, ac yn nain a hen nain garedig, a chwaer i Violet. Bu Hazel yn weithgar iawn gyda NSPCC Cymru, a hi oedd cadeirydd Cangen Bethesda. Cynhaliwyd ei gwasanaeth angladdol ar ddydd Llun, 15 Awst, yn Amlosgfa Bangor, gyda ficer Eglwys Crist Glanogwen, y Parchg/Ddr. Gareth Lloyd yn arwain. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd. Joseph Evans – Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, ar 4 Awst, bu farw Mr. Joseph Evans, Glan Ffrydlas, yn 90 mlwydd oed. Priod annwyl y ddiweddar Mrs. Ettie Evans, tad a thad yng nghyfraith Arfon a Helen, a Gareth a Lowri. Taid hoffus i Rhodri a Rhian, Lois a Mathew, Martha, Elis a Begw, a hen daid i Bledwyn, Llio ac Ania.



Pedair Cenhedlaeth

Dyma lun o Mrs. Margaret Rees Williams, 6 Rhos y Coed, Bethesda, gyda Dylan Rees Williams, ei mab, Owain Rees Williams, ei hwŷr, ac Efa Gwenllian, ei gôr wyres, a anwyd ar yr 27^{ain} o Fai 2022. Mae Owain yn athro yn Ysgol y Graig, Llangefni, ac yn byw gyda Catrin, ei wraig, ac Efa yn Abergele.

Cafodd ei eni yng Nglasinfryn, yn fab i William a Mary Evans, ac yn frawd bach i'r diweddar Albert, Eddie, Tom, Gwilym, Emrys a Vera. Symudodd tra yn blentyn i Felin Hen, i gartref newydd o'r enw Mill Cottage. Wedi gadael yr ysgol bu'n gweithio ar sawl ffarm cyn symud at y Cyngor Sir. 'Roedd yn aelod selog o Gapel Jerusalem a Chlwb Gorffwysfan, ble bu'n drysorydd am sawl blwyddyn. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Bangor ar ddydd Llun, 15 Awst, gyda'i nai, y Parchg. Dafydd Coetmor Williams yn arwain y gwasanaeth. Cafwyd gair o ymddiheuriad gan Mrs. Nerys Griffiths. Mrs. Christine Edwards oedd wrth yr organ. Claddwyd ei lwch gyda'i briod ym Mynwent Coetmor, fore Mercher, 17 Awst. Cydymdeimlwn â chwi oll fel teulu yn eich profedigaeth. Dymuna'r teulu ddiolch o waelod calon am y swm anrhydeddus o £1,445 a dderbyniwyd er cof am Joe. Mae'r arian bellach wedi ei drosglwyddo i'r ddwy elusen, sef Tŷ Gobaith a Hosbis Dewi Sant.

I Menai Williams

(ar achlysur derbyn gradd er anrhydedd mewn cerddoriaeth gan Brifysgol Bangor)
I gerddor a'i rhagoriaeth – rhoddir clod
Am hynod wasanaeth;
Dwyn ei chelf, ei dawn a'i chwaeth
I haeddiant cydnabyddiaeth.
Ieuan Wyn

Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen

Plaid Cymru

Tregarth a Mynydd Llandygai • cynghorydd.BecaRoberts@gwynedd.llyw.cymru • 07436 927237

Gerlan • cynghorydd.EinirWynWilliams@gwynedd.llyw.cymru • 07747 690456

Canol Bethesda • cynghorydd.RheinaltPuw@gwynedd.llyw.cymru • 07789 742092

Arllechwedd • cynghorydd.DafyddMeurig@gwynedd.llyw.cymru • 07765 400140

Rachub • cynghorydd.PaulRowlinson@gwynedd.llyw.cymru • 07949 034967

Eglwys Crist, Glanogwen

Cyngerdd

Bydd y Cyngerdd Mawreddog gan Gôr Meibion y Penrhyn a Chôr Merched Marsh o Huddersfield, i'w gynnal yn yr eglwys nos Sadwrn Medi 24 i gychwyn am 7. Mynediad yn £10, a £5 i rai dan 16, a bydd posib talu ar y noson.

Tocynnau ar gael gan aelodau'r Côr ac aelodau'r eglwys, ac hefyd yn Siop Ogwen.

Bydd elw'r noson i fynd at atgyweirio twr yr eglwys. Diolch yn fawr i'r ddau gôr am eu cyfraniad arbennig, ac i'r Clwb Criced a Bowlio, a hefyd Gwasg Ffrancon, am eu haelioni.

Gan fod yr ymateb i'r Apel wedi tawelu braidd yn dilyn helynt y Cofid, gobeithiwn yn fawr am gynulleidfa gref ar gyfer y Cyngerdd i roi hwb i'r Gronfa.

Dewch yn llw i fwynhau, i gefnogi'r achos ac i helpu i gadw'r eglwys ar agor!

Enillwyr Clwb Cant mis Gorffennaf:

- £50: – 45 – Diane Hulme
- £20: – 34 – Tina Bamber
- £20: – 153 – Marian Dawtrey

Enillwyr mis Awst:

- £50 – 100 – Johanna Owen
- £20 – 91 – Val Jones
- £20 – 77 – Jodie Ellis

Llongyfarchiadau i'r enillwyr! Tynnir y gwobrau lwcus yng Ngwesty'r Douglas ar y nos Wener olaf o bob mis am 7.30; croeso cynnes i bawb.

Mae'n flwyddyn ers sefydlu'r Clwb Cant, a'r aelodaeth wedi codi dros £1,000 i gronfa'r Apel. Diolch i bawb am eu cefnogaeth, a gobeithio bod pawb yn awyddus i ddal ati gyda'u rhifau. Dyma'r incwm mwyaf o ddigon i'r Apel. Y ffordd ddelfrydol fyddai talu:

1. trwy arian parod neu
2. trwy drosglwyddiad banc i gyfrif HSBC 40-09-03; 02066637 gan roi enw a rhif ffon fel cyswllt – a chofio anfon neges i llinoso@yahoo.com i ddweud eich bod wedi talu.

Rhestr Aelodaeth

Mae'n amser diweddarau rhestr aelodaeth yr eglwys, felly diolchwn i bawb am ddod a'r ffurflenni i law. Cofiwch gysylltu os nad ydych wedi rhoi manylion eto – bydd y rhestr o werth i'n ficer, Dr Gareth Lloyd Roberts, i ddod i adnabod pawb.

Cofiwch hefyd gysylltu os oes gennych Amlenni Rhodd, ac yn methu mynychu'r eglwys ar hyn o bryd, gallwn alw amdanynt.

Cofiwn yn ein gweddïau am bawb sydd yn sal neu'n unig yn y gymuned, gan gynnwys y rhai sydd yn hiraethu am anwyliad; cofiwch roi gwybodaeth os gwyddoch am unrhyw un sydd angen gweddï, ymweliad, neu Gymun yn eu cartref.

Gwasanaethau

- Pob Bore Sul am 11.00 y bore – Cymun Bendigaid
- Pob Bore Mercher am 10.30 y bore – Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi.
- Croeso cynnes fel arfer i bawb.

Manylion Cyswllt

Gellir cysylltu bellach a'r ficer, y Parch. Ddoctor Gareth Llwyd, ar 07847 125 225 neu'r Deon Gwlad, y Parch. Tracy Jones ar 01248 361876 ynglyn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys, gan gynnwys trefnu priodas, angladd neu fedydd. Cofiwch bod Barbara (600530) a Glenys (600371) ar ben arall y ffon os am gael sgwrs.

Yr Eglwys Unedig

Gan na fu gwasanaethau yn ystod mis Awst, prin iawn yw'r deunydd ar gyfer y Llais y mis hwn, ond edrychwn ymlaen at ail-afael ynddi o ddechrau Medi ymlaen.

Bore Coffi

Cynhelir Bore Coffi yn y Festri am 10 o'r gloch fore **Gwener**, Medi 30. Y tâl mynediad yw £1, a bydd yr holl elw yn mynd tuag at Apêl MacMillan. Erfyniwn am eich cefnogaeth i'r achos teilwng hwn.

Gig!

Cynhaliwyd gig hynod o lwyddiannus yn y capel ar ddiwedd mis Awst – diolch i Dilwyn Llwyd a'i griw am eu trefniadau trylwyr. Gobeithiwn gael lluniau perthnasol erbyn y rhifyn nesaf.

Profedigaeth

Collodd yr Eglwys Unedig aelod hynod o werthfawr ym marwolaeth Mr Joe Evans. Gŵr tawel a diymhongar oedd Joe, ac un a oedd bob amser yn barod i gynorthwyo gyda gofal yr adeiladau, hyd nes y dirywiodd ei iechyd. Bydd bwlch mawr ar ei ôl, ac anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf at y teulu oll.

Galw Gweinidog

Mae trefniadau ar droed i alw gweinidog ar y cyd ag eglwysi Bethel, Caeathro a Llanrug. Edrychwn ymlaen at gyfnod newydd cyffrous yn ein hanes, gan obeithio y cawn gynnal achos lesu Grist yn Jerusalem am flynyddoedd i ddod.

Cyhoeddiadau'r Sul

- Medi 18: Sul y Teulu (10)
- Medi 25: Y Parchedig Gwyndaf Jones
- Hydref 2: Y Parchedig Anna Jane Evans (5)
- Hydref 9: Y Parchedig John Owen (10)
- Hydref 16: Y Parchedig Gerallt Lloyd Evans
- Hydref 23: Mr Gwilym Williams (5)
- Hydref 30: Mr Richard Lloyd Jones
- Tachwedd 6: Y Parchedig Geraint Roberts
- Tachwedd 13: Y Parchedig Brian Wright
- Byddwn yn parhau â'r trefniant arferol o ddarparu gwrandao ar y ffôn – croeso cynnes i chwi i gyd.

SIÂN GWENLLIAN

AELOD O'R SENEDD DROS ARFON

CYSYLLTWCH:

-  sian.gwenllian@senedd.cymru
-  01286 672 076
-  70 Stryd Fawr, Bangor



Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



Newyddion y Dyffryn Gwyrdd



Argyfwng Costau Byw

Gyda'r esgid yn gwasgu fwy-fwy ac yn effeithio bron pawb yn ein cymuned bellach mae'r Dyffryn Gwyrdd yn awyddus i wybod sut y gallwn eich cynorthwyo i wynebu'r heriau dros y misoedd nesaf. Rydym yn cynnal sesiynau rhannu bwyd deirgwaith yr wythnos o Pantri Pesda ac yn darparu parseli bwyd misol i unrhyw un sydd mewn angen yn y Dyffryn. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r unigolion a sefydliadau sydd wedi, ac yn parhau i'n cynorthwyo'n ariannol. Pe bai unrhyw un o ddarllenwyr y Llais eisiau cefnogi'n gwaith o ddarparu parseli bwyd derbynnir rhoddion yn y fasedg yn Londis ac yn y Pantri yn ogystal. Gellir hefyd wneud cyfraniad ariannol drwy gysylltu a huw@ogwen.org neu galw yn y Pantri neu'r swyddfeydd ar y stryd fawr. Hefyd, rydym yn gweithio gyda Proiect SeroNet Gwynedd ar ddarparu cyngor ar arbed ynni a lleihau costau'n

y cartref. Cysylltwch a ianto@ogwen.org am fwy o fanylion. Yn ogystal rydym wedi creu holiadur i geisio canfod barn ein cymuned a sut y gallwn eu cynorthwyo i wynebu'r heriau sydd ar y gweill <https://forms.gle/uMmWSFLcvzh2ubQq7>

Wythnos Fawr Werdd

Fel rhan o weithgareddau Climate Cymru bydd y Dyffryn Gwyrdd yn cynnal digwyddiadau yn y Dyffryn yn ystod yr wythnos 24/09 -02/10. Bydd sesiwn Helfa Ffwng ar dydd Sul 25/09 (cofrestrwch ymlaen llaw gyda menna@ogwen.org, lle i 12 ar y tro), bydd gennym feics trydan ar gael i'w benthg a bydd gweithgareddau eraill yn ogystal. Mwy o fanylion yn <https://climate.cymru/cy/y-daith-werdd-climate-cymru/>

Gardd Ffrancon

Gerddi cymunedol - Gardd Ffrancon
Welodd Gardd Ffrancon dipyn o brysurdeb dros wythnosau'r

haf. Ers rhai wythnosau, mae mamau a phlant ifanc yn mwynhau dyfrio'r planhigion, plannu a chynaeafu ffa a thatws. Mae'r plant wrth eu bodd yn eistedd yn y gwair hir ac yn edrych ar flodau bach, tra mae'r rhieni yn cael cyfle i gyfarfod eu gilydd, bod allan o'r tŷ a gwneud rhywbeth gwahanol.

Ers rhai wythnosau hefyd, mae grŵp bach yn dod i'r ardd gymunedol drwy 'bresgripsiwn gwyrdd', sy'n golygu bod meddygon yn dechrau gwerthfawrogi buddion bod allan yn yr ardd. Mae awyr iach, bod yn actif, a sylwi ar bethau byd natur i gyd yn llesol i'r corff ac i'r meddwl. Arbrawf ydi'r rhaglen hon o 6 wythnos, yn cael ei drefnu gan Goed Lleol, ond mae'r sawl sy'n dod yn canmol yn barod faint maen nhw'n gael allan ohono fo, ac rydym yn gobeithio bod nhw'n parhau i ddod i arddio yn gymunedol, a bod grwpiau tebyg yn bosibl yn y dyfodol.

Mi fyddwch chi wedi sylwi ar y newid sydd wedi digwydd i edrychiad Gardd Ffrancon dros y flwyddyn ddiwethaf. Ein bwriad ydi rheoli'r gerddi mewn ffordd i gynyddu budd amgylcheddol. Mae glaswelltiroedd sy'n llawn o wahanol rywogaethau o weiriau, blodau, ffwng, ac felly creaduriaid di-asgwrn cefn fel gwenyn a gloynnod byw, yn arbennig o dda fel storfa carbon, yn atal llifogydd ac erydu, ac yn lleihau effaith tywydd garw. Yn anffodus, collwyd 97% o laswelltiroedd

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar

Swyddfeydd eraill:

Llangefni (01248) 723106 Porthaethwy (01248) 719517 Benllech (01248) 852782

Caernarfon
(01248) 673616

Pwllheli
(01758) 703000

TEMPLE MORRIS A'I FFA

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

Glasinfryn a Chaerhun

Mair Griffiths, (352966) mairpenybryn@gmail.com

Priodas

Llongyfarchiadau i Ffion Jones, merch Mr a Mrs Tudor Jones, Fferm Coed Hywel, ar achlysur ei phriodas â Dion Hughes o Dregarth ar 20 Awst. Wedi'r gwasanaeth yng nghapel Shiloh, Tregarth, dathlwyd gyda pharti mewn pabell fawr ar dîr Fferm Coed Hywel. Pob dymuniad da am hapusrwydd a hir oes i'r ddau..

Cylch Glasinfryn

Bydd y Cylch yn ail gychwyn ar 14 Medi, gyda Menna Gilbert yn dod i sgwrsio ac arddangos casgliad o'i Dillad Hynafol. Yna ar 12 Hydref gobeithir croesawy Mark Roberts i roi sgwrs am "Prince Madog", cwch y Brifysgol yn Mhorthaethwy. Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2yp yn y Ganolfan, croeso cynnes iawn i aelodau hen a newydd.

Ann Illsley

Ar 3 Awst syfrdanwyd y fro gan newyddion trist am farwolaeth sydyn ac annisgwyl Ann Illsley, Pencefn. 'Roedd Ann wedi byw ym Mhencefn ers 1969 ac yn ystod y blynyddoedd 'roedd wedi ymwneud hefo

amryw weithgareddau lleol megis cyn Sefydliad y Merched, Cylch Glasinfryn, a bu'n weithgar ar draws y blynyddoedd hefo digwyddiadau Sioe Glasinfryn pan oedd yn sioe boblogaidd ac yn un o atyniadau'r fro. Yn wraig alluog tu hwnt ac yn meddu graddau M.Sc a Ph.D, yr oedd galw mawr ar Ann mewn sawl maes. Ei phrif faes oedd Botaneg ac fe wnaeth waith pwysig yng Ngerddi y Brifysgol yn Nhreborth yn enwedig ar ôl ymddeol o lyfrgell y Prifysgol, Bangor ac yn ddiweddarach o Ysgol Nyrsio y Brifysgol. 'Roedd hi yn adnabyddus gan bawb ac yn gyfeillgar a chymwynasgar tu hwnt. Yr oedd hi hefyd yn ffyddlon iawn yng nghynulleidfia Eglwys Sant Cedol, Pentir ac wedi dysgu Cymraeg i Safon A rhai blynyddoedd yn ôl. Bydd bwlch a cholled mawr hebdi i'w theulu, cyfeillion, a'r ardal.

Elfed Griffith

Colled fawr i ardal Waen Wen oedd marwolaeth Elfed Griffith, Bryn Dedwydd. Yr oedd Elfed yn gymwynaswr mawr a phob amser yn barod i roi help llaw heb son am fod yn gymeriad hynod glên a hawddgar.



Beics Trydan;
Gyda chefnogaeth gan gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru mae Tom Simone, ein Cydlynnydd Beics wedi bod wrthi'n brysur yn datblygu cynllun Beics Ogwen. Rydym wedi pwrkasu 5 beic trydan newydd sbon ar gyfer y Dyffryn Gwyrdd a byddwn yn retro-osod sawl beic arall yn ogystal. Rydym yn trefnu teithiau sesiynau trwsio, teithiau llesiant neu gallwch alw heibio Cefnfaes i gael treialu beic trydan! Cysylltwch a tom@ogwen.org am fwy o fanylion.

amrywiol ers y 1940au, ac felly, rydym yn ceisio gwneud ein rhan fach. Er enghraifft, mae nifer o loynnod byw yn dibynnu'n llwyr ar un math o blanhigyn i ddodwy eu hwyau, ac weithiau, y planhigion hyn ydi be dan ni'n galw yn chwyn (dail poethion, neu lysiau'r gingroen)! Bioamrywiaeth ydi'r allwedd i bridd iach, a phridd iach sy'n gweithio fel storfa carbon. Ac felly, mae glaswelltiroedd o leiaf yr un mor bwysig â choed i leihau'r nwyon tŷ gwydr.
Mae'r rhandiroedd hefyd wedi

bod yn hynod brysur, gyda 18 plot wedi mynd erbyn hyn - 12 oeddem ni wedi rhagweld! Difyr sut mae pob un yn edrych yn wahanol ac yn dangos personoliaeth unigryw!
Os dach chi heb fod yma, dowch i fwynhau'r awyrgylch bywiog ond tawel. Mae'r gerddi ar agor i'r cyhoedd, ac mae na feinciau i sgwrsio, neu i ymlacio a sylwi ar beth sy'n tyfu neu'n hedfan! Ac os oes gynnwch chi awydd cefnogi'r ardd gymunedol, cewch wneud hyn mewn gwahanol ffyrdd:

Ymuno â'n grŵp garddio wythnosol

- Helpu dyfrio
- Magu planhigion o had yn eich cartref i blannu allan wedyn
- Cynnal gwledd yn eich cymdogaeth, gyda phlant a neiniau a theidiau a phawb yn y canol, gyda chynnyrch yr ardd
- Rhoi planhigion sbar sydd gennych yn rhodd
- Cludo'r cnydau sydd dros ben i Pantri Pesda,

i caffis Bethesda, neu i ddigwyddiadau

- Helpu trwsio pethau
- Garddio yma efo plant, neu efo grŵp cymunedol

Rhowch wybod inni os oes gennych chi awydd, neu os oes gennych chi syniad arall!
judith@ogwen.org

Am fwy o fanylion am waith y Dyffryn Gwyrdd, cysylltwch efo ni; menna@ogwen.org // 07394906036

Colled fawr i Elfed oedd marwolaeth ei briod Heulwen sawl blwyddyn yn ôl bellach. Yr oedd y ddau yn weithgar tu hwnt ym myd ceffylau yn enwedig mewn sioeau gan ddangos ceffylau yn ogystal a beirniadu. Bu Elfed yn gweithio hefo Cwmni Watkin Jones am flynyddoedd cyn ei ymddeoliad. Estynir gydymdeimlad y fro tuag at y teulu oll yn eu colled a'u hiraeth am un mor annwyl.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Marian Bryfdir a Dewi Jones, Bro Eryri ar ddod yn nain a taid i Blake, mab bach i Jamie-Glyn, mab Marian, a Zoe. sydd yn byw yng Nghaer.

Y Ganolfan

Gyda'r Hydref yn nesau bydd gweithgareddau'r Ganolfan yn ail ddechrau. Mae amrywiaeth o weithgareddau yn cymeryd lle o Yoga i Qigong i Arlunio. Os hoffech logi y Ganolfan ar gyfer dosbarth neu achlysur, cysylltwch â Mair Griffiths, cyswllt fel yr uchod. Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol y Ganolfan ar 24 Medi am 10.30yb. Cyfarfod agored yw hwn, mae croeso cynnes i bawb.

Gwersi Canu

Bydd Marian Bryfdir yn agor drws Y

Stiwidio Llais (Bro Eryri, Waen Wen, LL57 4UF) unwaith eto mis yma. Bydd cyfle i gantorion o bob oedran ddysgu :- 1) Datblygu cynhyrchiad y Llais.2) Ymestyn cwrmpawd y Llais. 3) Dysgu techneg anadlu. 4) Dysgu caneuon o bob math i arholiadau, cyngherddau ac eisteddfodau. Cysylltwch â Marian drwy e-bost:bryfdir1@btinternet.com. Ffôn: 01248361702 / 07906437287

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

600763 neu 07708 008051

GWASANAETH DYDD A NOS

MODURDY
FFRYDLAS

Profion
M.O.T.

Perchennog
A. LI. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAW
NEU DDAMWAIN

600723
Ffacs: 605068

Dilynwch Llais Ogwan ar Trydar **@Llais_Ogwan**

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

Eglwys Unedig
Jerusalem,
Y GYMDEITHAS
13 Hydref
am 7 o'r gloch,
Sgwrs gan Andre Lomozik"



Canolfan Cefnfaes
Bore Coffi
Gorffwysfan
Sadwrn, 17 Medi
10.00 – 12.00
Mynediad £1.00

Canolfan Cefnfaes
Bore Coffi
Clwb Camera
Dyffryn Ogwen
a Diabetes Cymru
Sadwrn, 5 Tachwedd
10.00 – 12.00
Stondinau Amrywiol
Croeso i bawb
Mynediad £1.00

Canolfan Cefnfaes
Gyrfa Chwist
Medi 27
Hydref 11 a 25
am 7 o'r gloch.
Croeso i bawb

Festri Capel Jerusalem
Bore Coffi
Macmillan
Dydd Gwener, 30 Medi
10.00 – 12.00
Mynediad £1.00

Cynhelir
Clwb Coffi Talybont
yn
Festri Bethlehem
Ar foreau Llun
Medi 19, Hydref 3, 17 a 31
Dewch am banad a sgwrs
Mynediad am ddim

Canolfan Cefnfaes
Bore Coffi
Eisteddfod Gadeiriol
Dyffryn Ogwen
Sadwrn, 15 Hydref
10.00 – 12.00
Mynediad £1.00

Canolfan Cefnfaes
Bore Coffi
Cyfeillion
Ysbyty Gwynedd
Sadwrn, 22 Hydref
10.00 – 12.00
Mynediad £1.00

CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

RHAGLEN 2022/2023

Cynhelir yr holl gyfarfodydd ar yr **ail Nos Lun** ymhob mis am **7.00 o'r gloch AG EITHRIO** cyfarfod mis Rhagfyr. Bryd hynny cynhelir y Cyfarfod Blynnyddol am 7.00 o'r gloch, a bydd y ddarlith yn cychwyn am **7.15 o'r gloch.**

Lleoliad y cyfarfodydd:
Wyneb yn wyneb: Yn Festri Capel Jerusalem, Bethesda. Cofrestrwch efo garethllwyd197@btinternet.com

Rhithiol tros Zoom: Cofrestrwch efo bethan@ogwen.org
Cofrestrwch erbyn 12 o'r gloch dydd Llun y ddarlith ar yr hwyraf

2022

Nos Lun 10 Hydref 7.00 **Gari Wyn** – *Penseiri Capeli Lerpwl*
Nos Lun 14 Tachwedd 7.00 **Anna Pritchard** – *Ysbrydoliaeth Artistig – Crefft y Gwehydd*
Nos Lun 12 Rhagfyr 7.00 **Y CYFARFOD BLYNYDDOL**
7.15 **I'w drefnu**

2023

Nos Lun 9 Ionawr 7.00 **Dr Ffion Eluned Owen** – *Sul, Gwyl a Gwaith*
Nos Lun 13 Chwefror 7.00 **Cadi Iolen** – *Gwaith Curadurol*
Nos Lun 13 Mawrth 7.00 **Gareth Llwyd** – *Arwr Anghofiedig a 'Glad stone y Chwarelwyr' - William Hugh Williams, Arafon [Darlith Goffa Rhiannon Rowlands a draddodir gan Ieuan Wyn]*

FFI AM Y CWRS £10.00 i rai mewn gwaith
£5.00 i bensynwyr a'r di-waith
Plant ysgol am ddim
Cost darlithoedd unigol = £2.00

Y ffioedd i'w talu i gyfrif 'Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen' drwy:
BACS: 40-16-02 41386212 neu drwy sic.

Swyddogion y Gymdeithas yn ystod 2021/22:

Cadeirydd: Y Prif-fardd Ieuan Wyn
Trefnydd / Trysorydd: Dafydd Roberts, (01248) 600798
dafydd@caerwern.cymru
Ysgrifennydd: Gareth Llwyd, Talgarnedd, Bethesda (01248) 601415
Llywyddion Anrhydeddus: Dr John Elwyn Hughes a'r Dr John Llywelyn Williams



I ddiolch i chi am gefnogi'r Cynllun Cyfaill Cymunedol...

Digwyddiadau Cyfaill Cymunedol 2022



Canolfan Cefnfaes, 2yh
Medi -
13 - Panad a Sgwrs
Hydref
4 - Bingo
18 - Caneuon gan Edwin Humphreys

Raffl bob wythnos £1 am strip

Tranfnidiaeth ar gael

Cyswllt:
anna@ogwen.org
Ffôn - 07394906036 / 07492290041

Byddwn yn dilyn rheolau a chanllawiau Covid-19 y llywodraeth yng Nghymru

Petai unrhyw un yn dymuno cyfrannu, bydd pob elw yn mynd tuag at elusen lleol.



CAFFI COED-Y-BRENIN

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
ionarhiwen@hotmail.co.uk (01248 355336)

Profedigaeth

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Mrs Margaret Jones, Fferm Tan y Weirglodd. Fe fu'n wael am gyfnod ond bu farw yn sydyn ac yn annisgwyl. Cofion atoch fel teulu. Fe fydd teyrnged yn y rhifyn nesaf.

Y Neuadd

Bu prysurdeb mawr yn y Neuadd yn ystod Mis Awst, cafwyd cegin newydd. Diolch i'r rhai fu'n brysur

yn gwagio'r hen un ac yna yn gwneud trefniadau i'r gweithwyr ddod yn eu tro. Diolch i'r rhai a fu'n gofalu fod popeth yn mynd yn drefnus.

Arholiadau

Heb glywed fawr am y canlaniadau eleni ond llongyfarchiadau i Osian, Bron y Waun am gael deuddeg A a'u hanner yn A seren. Da iawn ti a phob hwyl yn y 6ed dosbarth.

Eisteddfod Tregaron 2022

Diolch i S4C am yr arlwy a gawsom o'r Eisteddfod ac fe wn am sawl un a f'u yn gwyllo drwy'r dydd gan fwynhau pob cystadleuaeth a'r seromoniau. Bu merched Llŷn yn llwyddiannus iawn yn y prif gystadleuthau a braf oedd gweld Manon Steffan Ross yn un a fu'n beirniadu gwobr goffa Daniel Owen. Meinir Pierce Jones oedd yn fuddugol efo'i nofel Capten a dywedodd Manon ei bod yn methu rhoi'r llyfr i lawr.

Gwynedd Digidol

Y mae sawl un ohonom wedi cael budd o fynychu'r sesiynnau yn y neuadd ar fore Mercher am 10

o'r gloch tan 12. Galwch i mewn i weld beth sy'n mynd ymlaen. Cyngor Cymuned Llanddeiniolen
Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol gan fudiadau gwirfoddol. Y ceisiadau i gyrraedd y Clerc ddim hwyrach na Medi 30. Ni fydd ystyriaeth i unrhyw gais os na fydd yn cynnwys mantolen wedi ei ardystio gan berson allanol. Y ceisiadau i'w hanfon ar Eleri Bean, Bwthyn Isaf, Deiniolen LL55 3LS

Yr ysgol

Pob hwyl i'r rhai fydd yn mynd o'r cynradd i'r uwchradd eleni, heb anghofio y rhai fydd yn mynychu'r ysgol am y tro cyntaf.

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619

moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY

UNIPART CAR CARE CENTRE

GWERSI PIANO

- Tiwtor cyfeillgar, amyneddgar, cymwysedig a chanddo dros 40 mlynedd o brofiad hyfforddi.
- Prisiau rhesymol a thalu ar gychwyn bob gwers nid am wythnosau ymlaen llaw.
- Ni chodir tâl am absenoldeb oherwydd salwch.
- Rhiant neu ofalydd cyfrifol yn bresennol ym mhob gwers.
- Anogir bob disgybl i sefyll arholiadau'r Associated Board.
- Cynhelir gwersi trwy gydol y flwyddyn (yn cynnwys rhai gwyliau ysgol). Caniateir gwyliau ar amser arall trwy drefniant ymlaen llaw.
- Diheintir y Piano rhwng pob gwers.
- Ni dderbynir plant sy'n iau na 8 mlwydd oed.

Cysylltwch â: **Gerwyn Llwyd, FVCM, LWCMD,**
ar Bethesda **01248 602901**

Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?
Cysylltwch â Neville Hughes
nev_hughes@btinternet.com

THEATR BC BARACAWS

Un Nos Ola Leuad

Gan Caradog Prichard

Addasiad Betsan Llwyd o waith gwreiddiol gan Maureen Rhys a John Ogwen

Cast:
Owen Alun
Owen Arwyn
Celyn Cartwright
Siôn Emyr
Cedron Siôn
Manon Wilkinson

Cyfarwyddo:
Betsan Llwyd

Daw Dyn i droedio llwybrau'i blentyndod ar noson ola leuad braf, 'run fath a heno...

NEUADD OGWEN, BETHESDA

Nos Fawrth | 18-10-22 | 7:30
Nos Fercher | 19-10-22 | 7:30

Tocynnau: neuaddogwen.com

Cyngor Gwladysgar Cymru Arts Council of Wales Noson Allan Night Out CONWY CYNGOR LLŶN LLŶN

JR SGAFFALDIAU Cyf. JR SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)

CITB

Olwen Hills (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
Angharad Williams, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
Gwenda Davies, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

Dathlu Penblwydd priodas

Llongyfarchiadau i Sandra ac Adrian Stokes, Ffordd Tanrhiw a ddathlodd penblwydd Priodas Aur yn ystod yr Haf.

Llongyfarch

Daeth newyddion da am fusnes un o ferched y pentref sef Ffion Mai Jones, Ffordd Tanrhiw. Mae Ffion wedi ennill gwobr dan nawdd Llais Cymru 2022 yn y categori Gwallt a Harddwch. Enw ei busnes ydi 'Ciwticwls'. Llongyfarchiadau mawr Ffion.

Yn yr ysbyty

Mae Mrs Brenda Wyn Jones, Cae Derwen, wedi bod yn Ysbyty Gwynedd am gyfnod wedi iddi syrthio yn ei chartref. Mae bellach yng Nghartref Plas y Garnedd, Llanfairpwll ac anfonwn ein cofion cynhesaf ati am wellhad llwyr a buan.

Genedigaeth

Ganwyd mab i Emily Robinson a Josh Thomas, 3 Cwlyn, Braich Melyn, Bethesda ar Awst 11. Mae Theo Llyr yn wyr i Shan a Chris Robinson, 38 Ffordd Tanrhiw , yn gefnder i Cali Ffilyr, nai i Lucy ac yn or-wyr i Mona Williams, Lynona, Tregarth. Llongyfarchiadau mawr i chi fel teulu ar enedigaeth Theo.

Capel Shiloh

Wedi seibiant yr haf bydd y gwasanaethau yn cychwyn ar y Sul cynta ym Medi, Cofiwch fod pob oedfa yn cychwyn am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol.
Medi 11 – Huw Pritchard, Llangefni
Medi 18 – Philip Barnett, Swydd Efrog
Medi 25 – Dewi Morris, Porthmadog
Hydref 2 – Trefniant Lleol
Hydref 9 – Philip Barnett, Swydd Efrog
Hydref 16 – Sul y Diolchgarwch Dr Jennie Hurd
Hydref – 23 Geraint Roberts, Llandegfan
Hydref 30 – Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid

Llongyfarch ein pobol ifanc

Wedi cyfnod yr arholiadau mewn Ysgolion a Cholegau mae'n bryd inni longyfarch ein hieuencid am lwyddo yn eu arholiadau a hynny mewn cyfnod anodd a dyrys. Hwyl



Dilynwch Llais Ogwan ar Trydar @Llais_Ogwan

fawr i bob un ohonoch i'r dyfodol mewn prentisiaeth, swyddi, ysgolion a cholegau a chofiwch barhau i roi o'ch gorau a chofio o ba ardal yr ydych yn dod ohono.

Llongyfarchiadau i Owen Roberts, ŵyr i John a Pat Roberts, Talgae, a mab i Islwyn a Rhian ar ennill gradd 2.1 ym Mhrifysgol Met Caerdydd mewn dylunio graffeg.

Pob dymuniad da i Sioned Roberts, Bro Syr Ifor, ar ôl derbyn aren newydd yn ddiweddar. Hwn oedd ail drawsblaniad in Sioned a gobeithio bydd popeth yn mynd yn iawn y tro hwn. Mae Sioned yn ferch i Goronwy a Sulwen Roberts hefyd o Bro Syr Ifor.

Profedigaeth

Bu colledion mawr yn yr ardal yn ddiweddar ac rydym yn cydymdeimlo hefo pob teulu ar achlysur mor drist.

Ar Orffennaf 2 brawychwyd pawb o glywed y newyddion trist am farwolaeth Sara Humphreys Gray, Hen Dyrpeg, a hithau yn 52 mlwydd oed. Cydymdeimlwn gyda'i gŵr Mark a'r bechgyn loan, Gwilym, Jac a Cai, ei rhieni Glyn a Jaqui sydd hefyd yn byw yn Hen Dyrpeg, a'i brawd Rex a'r teulu sydd yn byw yn Gerlan. Roedd Sara yn emydd o'r radd flaenaf gan weithio gyda metalau gwerthfawr a llechen.

Ar Orffennaf 14, yn Ysbyty Gwynedd bu farw Nesta Williams, 36 Cae Garnedd, Bangor a gynt o Y Fenallt, Tal y Cae, Tregarth.

Bu Nesta yn bur wael yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond arhosodd yn gryf mewn ysbryd a hiwmor hyd y diwedd. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei phriod lolo, sydd mewn cartref gofal yn Llanberis, ei bechgyn Rhys a Guto, ei merched yng nghyfraith Julia a Iona, ei wyrion a wyresau Ffion, Michael, Megan, Eila, ac Elgan, ei brawd a'i chwaer a'r holl deulu. Bu ei hangladd yng Nghapel Emaus, Bangor ar Orffennaf 21 ac yn dilyn yn Amlosgfa Bangor dan arweiniad y Parchedig Casi Jones. Bu Nesta yn athrawes yn Ysgol Friars, Bangor ac roedd yn aelod ffyddlon yng Nghanen Tregarth o Ferched y Wawr.

Roedd yn hynod o drist clywed am farwolaeth Neil Vaughan Jones (Nellie Vaughan) yn ei gartref Gwel Mon, Pendinas, Tregarth yn 50 mlwydd oed ar Orffennaf 28. Roedd yn fab i Janice a'r diweddar Dafydd Vaughan, yn dad i Nel ac yn frawd i Ian, Adam a Lee ac yn ewythr i Angharad ac Owen. Bu'r angladd yn Amlosgfa Bangor ar Awst 13 a chofiw'n am y teulu yn eu hiraeth am Neil.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at Valerie Jones a'r holl deulu, Valwyn, Dob, Tregarth, yn y brofedigaeth o golli ei brawd David Griffith, 2 Foel Ogwen, Llanllechid fu farw ar Awst 12 yn Ysbyty Gwynedd, Bangor.



Priodas

Yng Nghapel Shiloh, Tregarth ar Awst 18 bu priodas Ffion Mair Jones, a Dion Vaughan Evans Hughes dan ofal Y Parchedig Llywelyn Moules Jones a Wynn Williams, Tyddyn Dicwm yn organydd. Bu'r wledd briodas mewn marci ar fferm Coed Hywel, Llandygai, sef cartref rhieni Ffion. Mae'r par priod wedi cartrefu yn eu cartref newydd yn Tregarth sef Cae Clyd. Anfonwn ein cofion fel ardal at Nain Ffion, sef Mrs Rhianwen Jones, sydd yn Ysbyty Eryri ar hyn o bryd. Cofion ati hi a phob hapusrwydd i Ffion a Dion i'r dyfodol.



Priodas arall

Llongyfarchiadau gwresog i Mrs Kath Evans a Dr Ronnie Clyde, Derlwyn, Lôn y Wern, ar eu priodas yng Nghaernarfon, ddydd Gwener 19 Awst. Cafwyd dathliad i ddilyn yn yr Anglesey Arms, Porthaethwy. Dymuniadau gorau i Kath, Ronnie a'u hŵyr Marcus ar gyfer y dyfodol. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt.



Pysgota
Mae Owen Hughes o Dal y cae wedi bod yn paratoi ar gyfer treialon i dîm pysgota leuenctid Cymru dydd Sul 11 Medi yn Llyn Clywedog. Tair ar ddeg ydy Owen ac yn ddisgybl blwyddyn 9 yn Ysgol Friars.Dyma Owen wedi dall dau frithyll enfys yn Llyn Cefni

Merched y Wawr Cangen Tregarth
Mae'r gangen ar gychwyn tymor newydd sbon yn ei hanes a bydd y cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal yn Festri Capel Shiloh, Tregarth am 7.30, Nos Lun, Medi 5. Croeso i bob aelod gan obeithio y cawn aelodau newydd. Bydd bwffe ysgafn a gair gan Ann Davies am gychwyniad y gangen yn Nhregarth. Mae dwy o'r aelodau cyntaf yn dal i fod yn aelodau brwd o'r gangen, sef Alwena Puw ac Angharad Hughes.

Gwych genod!
Bydd cyfarfod Mis Hydref Nos Lun, Hydref 3 a byddwn yn croesawu Alwyn Jones o Ambiwllans Awyr Cymri i siarad am y gwaith gwerthfawr a wneir gan griw yr Ambiwlland Awyr. Croeso cynnes i bawb i'r nos Lun cynta yn mhob mis am 7.30 o'r gloch. Croeso cynnes i'r swyddogion Newydd sef Carol Jones, Christine Morris Jones a Delyth Jones.

Drws Agored
Mae y drws yn agored yn Shiloh bob bore Gwener am sgwrs, paned a chwmni. Beth am droi i mewn. Criw da yn dod at ei gilydd bob bore Gwener a chroeso cynnes.

Ffarwelio a Chroesawu
Ar ddiwedd Mis Gorffennaf ffarweliwyd gyda'r gweinidog, sef Y Parchedig Richard Gillion a'i briod gan eu bod yn cychwyn ar waith newydd yn ardal Porthcawl ym Morgannwg. Tra yn ffarwelio gyda un gweinidog byddwn yn croesawu y Parchedig Ian Morris, Pontardulais, yn weinidog ar Eglwysi Methodistiaidd Mon ac Arfon, Nos Iau, Medi 1 yn Shiloh.

Apel Eisteddfod 2023 Dyffryn Ogwen

Pwyllgor Codi Arian Dyffryn Ogwen
Annwyl Gyd-ardalwyr Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau,
Mae pwyllgorau codi arian wedi cael eu sefydlu mewn nifer dda o ardaloedd yng Ngwynedd i gefnogi Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd y flwyddyn nesaf.

Ar gyfer Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, sef ardaloedd cynghorau cymuned Bethesda, Llanllechid a Llandygai, gosodwyd y nod o £6,000. Rydym fel pwyllgor yn anfon at fusnesau, sefydliadau a chymdeithasau lleol gydag apêl am gyfraniadau ariannol, ond mae'r llythyr hwn yn gwahodd aelwydydd i gyfrannu, gan apelio atoch fel unigolion ac fel teuluoedd.

Gwyddom fod cefnogaeth i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yma yn ein dyffryn, a pharch tuag at y traddodiad eisteddfodol yn benodol. Gwyddom hefyd ei bod hi'n argyfwng costau byw ac yn anodd iawn ar sawl teulu. Fodd bynnag, gobeithio'n fawr y byddwch chi, ddarllenwyr Llais Ogwan, yn barod i gyfrannu yn ôl eich modd. Bydd pob cyfraniad, bach neu fawr, yn cael ei werthfawrogi.

Rydym yn hyderus y bydd yr ymateb i'r

apêl hon yn un anrhydeddus fel ein bod ni yma yn Nyffryn Ogwen yn gwneud ein rhan i sicrhau eisteddfod genedlaethol lwyddiannus yng Ngwynedd y flwyddyn nesaf.

Yn gywir,
Ieuan Wyn (Cadeirydd)
Rhodri Evans (Ysgrifennydd)

Cyfrannu
Bydd eich cyfraniad yn mynd i gronfa dan ofal Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen cyn i'r cyfanswm terfynol gael ei drosglwyddo i gronfa Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd. Gellir cyfrannu mewn sawl ffordd

- Arian parod / siec (yn daladwy i 'Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen') i Donna Watts, Swyddfa Partneriaeth Ogwen, 26 Stryd Fawr, Bethesda, Gwynedd LL57 3AE neu Neville Hughes, 14 Ffordd Pant, Bethesda, Gwynedd LL57 3PA.
- Trosglwyddiad banc i gyfrif Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen HSBC Bangor; rhif didoli: 40 09 03; rhif y cyfrif: 51306413.



Marchnad Ogwen

Yn anffodus, nid oedd yn bosib cynnal Marchnad Medi gan nad oedd y gwaith yn Neuadd Ogwen wedi ei gwblhau. 'Rydym yn gobeithio y bydd y Farchnad yn ôl ar yr ail Sadwrn o bob mis fel arfer yn fuan.

Dyma ddyddiadau'r misoedd nesaf – Bore Sadwrn, Hydref 8fed o 9.30-1.00 (croesi bysedd y bydd y gwaith yn Neuadd Ogwen wedi ei gwblhau)!

Bore Sadwrn,
Tachwedd 12fed o 9.30 – 1.00
Nos Fercher,
Tachwedd 23ain o 5.00 – 8.00
Bore Sadwrn,
Rhagfyr 10fed o 9.30 – 1.00

Bydd gwybodaeth ar facebook,
instagram a'r wefan
www.marchnadogwen.co.uk

Bydd Marchnad Ogwen yn ôl cyn gynted â phosib!

Ar y teledu

Welsoch chi'r ail ddarllediad o'r rhaglen Cynefin ar S4C ddechrau'r mis?
Roedd hi werth ei gwyllo eto a'r cyfranwyr lleol yn ardderchog.

Hefyd, ar BBC Wales roedd Gerallt Wyn Jones, sydd wedi ei fabwysiadu, yn chwilio am ei deulu ar y rhaglen 'Searching for my other mam'. Os na welsoch y rhaglen mae'n werth chwilio amdani.





Pibydd y Dorlan

Aderyn bywiog cymharol fychan ydi pibydd y dorlan (*Actitis hypoleucos*). Mae ei enw'n cyfeirio at ei alwad fain, ac at ei gynefin, sef glan llyn neu afon. Y lle gorau yn yr ardal hon i'w wyllo ydi glan Llyn Ogwen ym Mhen Bryn Melyn wrth odre Tryfan yn ystod y gwanwyn a'r haf. Ymwelydd ydi o, ac roedd pâr yno eleni a dwy flynedd yn ôl. Dydyn nhw ddim o reidrwydd yn dychwelyd i'r un llyn neu afon.

Ei faint ydi 18-20 cm, efo lled ei adenydd yn 32-35 cm. Mae ganddo big syth a chymharol hir er mwyn dal pryfed ar y ddaear ac mewn dŵr bas. Weithiau bydd yn nofio dan y dŵr i'w dal. Melynrown efo arlliw o wyrdd ydi rhan uchaf ei gorff, efo'i fol yn wyn, ei fron yn llwyd-frown, a'i goesau a'i draed yn felynwyrdd. Mae llinell wen lydan o dan ei adenydd sy'n amlwg pan fo'n hedfan.

Os na fyddwch wedi clywed ei alwad fain, ceisiwch ddod i hyd iddo yn aros ar un o feini mawr Pen Bryn Melyn neu ar un o'r cerrig sydd yn y dŵr. 'Fydd o ddim yn oedi'n hir cyn gwibio'n isel a syth o garreg i garreg ar



hyd y dorlan, Bydd yn cadw llygad ar ei gymar – ac ar unrhyw un sy'n tresmasu yn ei gynefin

tymhorol! Mae ei hediad yn galed efo curiadau ei adenydd yn fyr, a phan fydd o'n glanio ar garreg

bydd ei ben a'i gynffon yn siglo i fyny ac i lawr. Mae'n brofiad hyfryd ei wyllo.

Wyddech chi...?

- fod un alarch du wedi bod ymhlith yr haid o elyrch dof (elyrch mud) yn Aberogwen eleni. Bydd hyn yn digwydd o dro i dro. Daw elyrch du yn wreiddiol o Awstralia.
- fod ucheldir o'r enw Carneddau uwchlaw Llanelwedd ym Mhowys.
- fod belar coed wedi ei weld ym Môn eleni, y cyntaf ers 30 mlynedd. Credir ei fod naill ai wedi croesi Bont Britannia o Goed y Faenol lle cafodd nifer o barau eu cyflwyno yn 2018-20,

neu wedi ymguddio ar y cwch o lwerddon, gwlad lle mae digonedd ohonyn nhw.

- Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhewch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at leuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanywyn01@gmail.com 01248 600297.

STEPHEN JONES TREFNWR ANGLADDAU CYF



PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS



BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

HYWEL WILLIAMS

AELOD SENEDDOL DROS ARFON



CYSYLLTWCH:

01286 672076

70 Stryd Fawr, Bangor

hywel.williams.mp@parliament.uk



YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON

Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?
Cysylltwch â Neville Hughes nev_hughes@btinternet.com

CHWILAIR



Planhigion a Choed a welwyd yng Nghymru

A	A	W	F	H	R	I	E	J	L	C	M	B	V	B	H	X	J	U	I
S	V	S	G	H	E	I	C	E	L	Y	N	Y	M	O	R	M	G	V	H
M	D	C	W	B	C	E	N	H	I	N	E	N	B	E	D	R	L	W	H
R	U	O	L	Z	L	M	X	V	A	D	D	N	A	P	A	U	I	Q	U
Y	S	L	Y	O	F	O	R	P	Y	Q	Z	G	R	H	C	U	L	M	W
W	N	L	D	O	G	Y	D	R	I	A	S	Z	U	T	F	D	I	X	U
G	P	E	D	W	O	R	H	Y	C	Q	H	W	E	H	O	Y	R	E	E
A	G	N	M	E	G	O	M	H	N	E	P	T	T	C	B	B	W	C	U
F	U	J	E	P	R	L	T	M	I	Y	V	V	D	C	B	B	Y	F	R
Y	F	O	L	G	U	J	V	I	I	R	G	R	X	I	M	H	D	T	T
N	O	S	Y	K	A	O	P	W	R	C	N	W	M	K	C	B	D	O	R
Y	C	X	N	V	H	R	Y	H	S	E	T	M	Y	R	E	F	F	Y	J
D	D	Z	M	H	C	B	C	W	O	O	S	C	R	N	A	I	A	X	N
O	I	S	A	L	Y	X	J	R	J	M	B	W	T	E	T	X	M	D	X
L	K	Y	I	F	L	U	Y	P	C	Q	Y	O	I	L	F	E	R	Z	Q
B	R	L	R	O	C	T	C	T	D	G	W	S	L	Z	E	B	E	A	J
K	J	R	C	L	S	N	B	E	R	W	R	D	W	R	L	R	V	O	G
J	P	I	W	U	P	G	S	O	W	J	J	Q	U	L	F	S	V	T	X
E	U	E	L	G	C	A	R	P	I	O	G	Y	G	O	R	S	H	S	L
Z	E	C	A	F	X	I	W	T	Z	H	K	V	A	G	B	N	K	A	D

Yn y Chwilair mis yma mae ENW DEUDDEG PLANHIGYN SYDD I'W GWELD YNG NGHYMRU i'w darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân). Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 29 Medi. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Dyma atebion Chwilair Gorffennaf: Aderyn y Gwanwyn; Afon Ogwen; Ateb Howard Huws; Briallu; Cof Cenedl; Creu Englyn; Cynefinoedd; Gwanwyn; Naid y Brithyll; Traddodiad; Y Friallen; Y Gog. Diolch yn fawr i chwi oll am rhoi cynnig ar y Chwilair, y rhai ffyddlon sydd yn ceisio pob mis, a hefyd nifer fawr o gystadleuwyr newydd. Rhai wedi dod yn agos ond eto ddim wedi darganfod yr holl atebion, Daliwch ati! Bob lwc gyda'r Chwilair y mis yma.

Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir: Gwen Davies, Tanysgrafell Isaf, Bethesda; Elizabeth Buckley, Maes Ogwen, Tregarth; Rosemary Williams, Tanrhiw, Tregarth; Eirwen Owen, Erw Las, Bethesda; Doris Shaw, Llwyn Hudol, Bangor; Gwenda Bowen, Gerlan; Marilyn Jones, Glanffrydlas. **Enillydd Gorffennaf oedd:-** Gwen Davies, Tanysgrafell Isaf, Bethesda. LL57 4AJ.

Iaith Pesda

Wedi mis bach o wyliau dros yr haf dyma ni yn ôl efo'r golofn unwaith eto. Mae'n ddrwg iawn geni orfod cychwyn gydag ymddiheuriadau na allaf barhau gyda geirfa'r chwarel tan y mis nesaf. Er hyn rwyf yn siwr bod llawer ohonoch yn gyfarwydd iawn gyda geirfa sy'n dal i gael eu cofio os nad eu defnyddio heddiw. Geiriau megis, 'caban' 'ponc' 'swper chwarel' a 'sgidia hoelion mawr' geiriau nad ydym am iddynt fynd yn angof.

Ambell air Sgaldian

Pan fo rhywun yn llosgi gyda dŵr poeth neu ferwedig yna dywedir ei fod wedi sgaldian. Ond ers talwm byddai pobl yn sgaldian llefrith er mwyn ei gadw rhag suro. Doedd dim oergell wrth gwrs a mwy na thebyg y byddai'r llefrith yn ffres, hynny ydy, yn syth o'r fuwch ac ni fyddai son am ddyddiad efo 'gwell cyn' neu 'defnyddiwch erbyn' yn agos atynt. Byddai'r llefrith yn cael ei godi i ferw ac wedyn ei dywallt i jwg a'i roi ar seld neu lechen i oeri. Rhoddwyd mat bach wedi ei grosio ar ben y jwg a byddai mwclis yn hongian ohono er mwyn l'w pwysau ei ddal i lawr. Byddai'r mat bach yn cadw'r pryfed draw.

Ar gownt

Fyddwch chi yn defnyddio'r ymadrodd yma? Weithiau defnyddir ef yn lle 'oherwydd' "Dydw i ddim eisiau mynd yno ar gownt yr hen gi ffyrnig 'na" Ond hefyd fel hyn "Rydw i eisiau gweld Huw ar gownt y beic newydd"

Wa'th befo

Neu weithiau 'witsia befo' yn meddwl dim ots ond hefyd yn eiriau i gysuro rhywun sydd wedi cael siom.

Pydru

Pan fydd pren a sawl math o ddeunydd arall yn dirywio mi ddwedwn ei fod yn 'pydru' ond mae ystyr arall l'r gair yn ardaloedd y chwareli, sef cleisio "Mae o wedi pydru ei droed mewn damwain." Byddwn hefyd yn disgrifio pydriad wrth gyfeirio at liw y clais – "Mae mraich i wedi duo "Mae ei lygad o'n ddu-las-biws."

Rhanwch eiriau neu ymadroddion sy'n gyfarwydd i chi.

Mae gen i destun newydd a gobeithio y bydd o ddiddordeb i lawer. Diolch i Gwyn Jones Cil Caseg am rannu ei wybodaeth eang o iaith y pysgotwyr lleol gan ddilyn ôl toed ei ddiweddar dad, Eryl Jones, Bontuchaf.

Moirio

A dyna i chi'r teitl oherwydd mai moirio a ddefnyddiwyd amlaf gan y pysgotwyr. Cofiaf fel y byddai fy mam yn dweud am ei brawd mai ar lan yr afon yn moirio y byddai i'w gael bob amser. Er mwyn pysgota byddai'n rhaid cael gwialen ond **genwair** yn Nyffryn Ogwen. Fel abwyd defnyddid **pry' genwair** neu **pry-gen a phry-gen domen dail**, pryfed genwair tenau lliw coch i'w cael o domen tail i fynd i foirio i'r afonydd a ffosydd. Abwyd arall ar gyfer yr afonydd fyddai **corbat** c'nonyr sydd yn gorchuddio ei hun gyda graean ac sy'n llechu o dan gerrig y ffosydd.

blaen llinyn sef lein denau tryloyw lle mae'r bluen neu'r bach yn cael ei gysylltu



gyt defnyddir i wneud blaen llinyn. Yn wreiddiol wedi ei wneud gyda perfedd gwartheg a defaid (gut) ond erbyn hyn yn ddefnydd synthetig.

hoban pluen sydd wedi ei gosod ar y blaen llinyn agosaf at y lein (agosaf at yr enwair)

Enwau lleol a ddefnyddir gan y pysgotwr ac o ddiddordeb i bawb sy'n mynd am dro rwy'n siwr.

Y Gro Y rhan bas o Lyn Ogwen wrth fferm Tal y Llyn sy'n 'sgota orau gyda gwynt Capel Currig. Hefyd y traeth graeanog sydd ar lan ogleddol Llyn Idwal.

Carreg y Fulfran Un o'r cerrig sydd yn amlwg yr ohr draw i Lyn Ogwen, ger y creigiau mawr lle yr arferai'r fulfran (bilidowcar) sefyll gyda'i hadenydd ar led i'w sychu wedi iddi blymio.

Aber Brwyn Y rhan brwynog o dir ar lan Llyn Ogwen lle mae Afon Bochlwyd yn cyrraedd y llyn.

Penbrynmelyn Y boncan garregog ar lan Llyn Ogwen wrth droed Tryfan

Y Pulpud Y garreg amlwg sydd i'w gweld ar lan ddeheuol Ffynnon Lloerac yn llecyn da i sgota oddi arni.

Wel dyna i chi damad i aros pryd ac edrychaf ymlaen i rannu mwy o iaith moirio efo chi. Os oes sylw neu gyfraniad cofiwch anfon. Mary Jones, 42 Erw Las, Bethesda LL57 3NN, maryeds@hotmail.co.uk neu ffôn 0744304764

Y Gerlan

Caren Brown, Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST.

(01248 602509 / 07789 916166)

carenelaine@hotmail.com

Linda Brown, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda, LL57 3TY. (01248 601526)

Ar y Sgrîn - Heno

Os oedda' chi'n gwylio rhaglen Heno ar y 30ain o Fehefin - mae'n debyg i rai ohonoch weld wyneb cyfarwydd arno – sef Dafydd Hedd o Stryd y Ffynnon. Mae Dafydd yn adnabyddus iawn yn y sin roc Cymraeg a chafodd gyfle i drafod ei waith a pherfformio un o'i ganeuon. Gobeithio dy fod wedi cael haf prysur Dafydd a gobeithio cawn ni weld a chlywed mwy am dy waith dros y flwyddyn nesaf. Pob dymuniad da iti pan ti'n dychwelyd i'r brifysgol ym Mryste hefyd.

Graddio

Llongyfarchiadau mawr i Cadi Elen Stryd Uchaf ar raddio yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor. Pob dymuniad da iti ar dy swydd newydd efo'r Urdd yng Nghaerdydd.



Llongyfarchiadau i Mabli Non Stryd Isaf hefyd sydd wedi graddio mewn Effeithiau 3D mewn Perfformiad a Ffasiwn o Goleg Ffasiwn Llundain. Pob dymuniad da iti ar dy swydd newydd yn y byd ffilm a theledu yn Stiwdio Pinewood.





Rygbi Rhyngwladol

Mae wedi bod yn Haf prysur i lago Davies, Tŷ Dwr. Mae lago'n chwarae rygbi 7 bob ochr i nifer o dimoedd gwadd. Eleni, tra'n chware i dîm yr Akuma Agents, cyrhaeddodd y rownd gynderfynol yn Amsterdam 7s cyn mynd ymlaen i guro'r gwpan yn Twrnament 7s Caeredin. Cafodd cyfle i chwarae yn erbyn un o gewri'r gêm, Dan Norton, yn y Super Series, cyn mynd ymlaen i guro'r tîm mae Norton bellach yn hyfforddi, (Tsiena) yn ffeinal y plât. Yn fwy diweddar mae wedi chwarae i dîm Lions Rugby

7s ym Mharis ac yn y Rugbytown 7s yn Glendale, Colorado. Roedd 'na gymysgedd o dimau rhyngwladol megis UDA a'r Almaen yn cystadlu a sawl tîm corfforol o luoedd arfog UDA. Cafwyd sawl buddugoliaeth cyffroes munud olaf ar y ffordd i ffeinal y Bowlen cyn curo Gorilla Rugby yn y gêm olaf. Mae lago nôl yn ei waith yn hyfforddi rygbi yn Brighton College erbyn hyn ond yn edrych ymlaen at ambell gystadleuaeth dros yr Hydref a thaith allan i Kenya a'r Safari 7s o bosib. Llongyfarchiadau mawr iti ar dy lwyddiant.

Mae Lel Ellis Williams hefyd wedi llwyddo i gael tystysgrif ôl raddedig Addysg. Mae'r cwrs blwyddyn yn un andros o heriol, felly llongyfarchiadau mawr iti a phob dymuniad da iti yn dy swydd newydd fel athro yn Llangefni. Er bod rhai wedi graddio ers blwyddyn neu ddwy yn ystod cyfnod covid, cawsant gyfle i ddathlu "go iawn" a seremoni graddio hir-ddisgwyliedig! Dwy o'r rhai hynny oedd Elin Cain Ffordd Gerlan a Dr. Mari Davies, Tŷ Dŵr – gobeithio i chi fwynhau eich diwrnod arbennig.

Gwellhad Buan

Cofiwn at bawb sydd ddim wedi bod yn dda dros y misoedd diwethaf. Mae ambell un wedi cael cyfnod yn yr ysbyty neu lawdriniaeth. Cofion cynnes ar Richard Vansittart (Vans) Stryd Uchaf sydd wedi cael cyfnod hir yn Ysbyty Gwynedd. Cafodd Peter Brown, Gwernydd, lawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd hefyd. Cofion at Gwyndaf Roberts, Ffordd Gerlan, sydd wedi cael llawdriniaeth ar ei lygaid.

Cydymdeimlo

Gyrrwn ein cydymdeimlad dwysaf at Rex Humphreys-Jones, Non, Caleb, Mabli, Dyddgu, Twm a Llew gan i Rex golli ei chwaer, Sara Humphreys-Jones, yn frawychus o sydyn ym mis Gorffennaf. Cofion cynhesaf atoch a'r teulu i gyd yn Nhregarth a thu hwnt.

Priodi

Llongyfarchiadau mawr i Carys Roberts a Lorna Todd, Stryd y Ffynnon ar eu priodas ym mis Gorffennaf. 'Roedd yn ddiwrnod braf a chafwyd amser hwyliog yn dathlu yn neuadd Mynydd Llandygai. Llongyfarchiadau mawr i Leah Huws a Nick Robinson o Huddersfield a briododd yn Leeds ym mis Awst. Mae Leah yn ferch i Sian Shakespear, Ffordd Gerlan.

Ymddeol

Pob dymuniad da i Chris O'Marah, Gwernydd, ar ei ymddeoliad. Mae Chris wedi bod yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol ac amddiffyn plant y rhan fwyaf o'i yrfa. Bydd na ddigon o amser i gerdded y cŵn rŵan Chris! Gobeithio cei di amser da yn dathlu ar dy wyliau yng Nghanada.

Y Lle Celf

Llongyfarchiadau mawr iawn i Morgan Griffith a Rebecca Hardy-Griffith ar eu llwyddiant yn curadu'r Lle Celf yn Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron. Os fuoch chi'n ddigon lwcus o gael mynd i'r Eisteddfod eleni, yna 'roedd gwledd o waith celf o'r safon uchaf yn eich disgwyl yn y Lle Celf ac wynebaw cyfarwydd o Stryd Goronwy yno i'ch croesawu. Diolch i chi'ch dau (a Menna Thomas) am eich gwaith caled yn dod a phopeth at ei gilydd - da ni'n falch iawn ohonoch chi! Pob dymuniad da i Rhiannon O'Marah sydd yn cychwyn ar ei hastudiaethau nesaf ym Mhrifysgol Lancaster. Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi derbyn canlyniadau arholiadau'n ddiweddar a phob dymuniad da i chi ar y cam nesaf!

Graddio

Llongyfarchiadau i Ellen Gould, 12 Gwernydd, ar ennill Gradd BA (Anrhydedd) mewn Hanes gydag Archaeoleg ym Mhrifysgol Bangor ym mis Gorffennaf. Llongyfarchiadau hefyd ar ddathlu ei phenblwydd yn 21 mlwydd oed ar 25 Awst. Cariad mawr oddi wrth nain a taid a'r teulu.



Cartref Newydd

Dymuniadau gorau i Thomas Gould ac Eleanor sydd wedi ymgartrefu yn Rhes Penrhyn, Bethesda ers mis Mai. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yno.

Nant Ffrancon

Profedigaeth

Ar 2 Awst, yn ei chartref yn Ty'n y Maes, bu farw Mrs. June Woodford yn 83 mlwydd oed. Priod Mr. David Woodford a mam, a mam yng nghyfraith i Reuben, Damian a Gwenda, a nain annwyl i Cai a Cian. Bu June yn weithgar iawn gyda'r NSPCC yn y Dyffryn. Cynhaliwyd ei hangladd ar fore lau, 11 Awst gyda gwasanaeth yn Amlosgfa Bangor. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch i gyd fel teulu yn eich colled drist.



Bowlio

Cynhaliwyd y Gystadleuaeth Agored i barau ar Sul, Awst28ain ar lawnt Clwb Bowlio Bethesda. Daeth 26 pâr i chwarae am y wobwr gyntaf oedd werth £100 yr un i'r enillwyr. Roedd presenoldeb tri cyn bencampwyr Cymru a chyn bencampwyr Prydain yn sicrhau bod safon uchel iawn i'r cystadlu. Daeth y chwarae i ben am chwarter wedi saith yr hwyr gyda chwaraewraig leol, sef Catrin Griffiths a'i phartner Ryan Short o Fangor yn fuddugol ar ôl trechu Stephen Jones o Ffestiniog a Dylan Rees o Gricieth 21 i 9 yn y rownd derfynol. Dim ond ers rhyw dair blynedd mae Catrin wedi bod yn chwarae, ac yn wir llai na hynny wrth gofio'r clo yn ystod amser y cofid.

Wrth gyflwyno'r gwobrau i'r chwaraewyr diolchodd Sion Guto Roberts, trefnydd y gystadleuaeth i bawb oedd wedi cefnogi'r diwrnod wrth baratoi bwyd, gwethio yn y gegin, marcio cardiau a bod wrth law i fesur. Diolchodd hefyd i'r noddwyr am eu cefnogaeth hwy sef, Richard Jones, John Roberts, Alison Owen, Siop Londis, Martin Rowlands, a Tesco.

Roedd Catrin a Ryan wedi curo rhai o'r ffefrynnau ar eu ffordd i'r ffeinal a llongyfarchiadau iddynt ar eu llwyddiant. Credaf mai dyma'r tro cyntaf i un o Fethesda guro'r gystadleuaeth hon. Da iawn chi! Pwy sy'n dweud bod hon yn gêm i hen bobl?



Ar y Lawnt efo Bys a Bawd



Tîm bowlio buddugol Bethesda ar ôl ennill Tarian Coffa Clive Llywelyn yn Llanfairfechan.

Y tîm bowlio buddugol

Rhes gefn; Gareth Lewis, Derek Griffiths, Fred Buckley, George Owen, Denzil Jones, Derfel Roberts. **Rhes flaen;** Rita Lewis, Wendy Thomas, John Baston, Heddwyn Morris, Maldwyn Pritchard.

Cystadlu brwd ond cyfeillgar

Ynghanol gwres Mis Awst bu tîm bowlio hŷn Bethesda yn Llanfairfechan yn cystadlu am darian goffa Clive Llywelyn. Arweinwyd y tîm gan Mr Maldwyn Pritchard, cynullydd, capten a phrif hyfforddwr Bethesda, yn cael ei gynorthwyo'n ddeheuig gan Mr John Baston. Mae Maldwyn a John yn hen lawiau ar gydweithio a chyd-dynnu'n effeithiol er mwyn curo gornestau mawr a bach. Yn wir, dywedodd Mr Fred Buckley, un o hoelion wyth Bethesda, "Dyma ddau sy'n batrwm i eraill ar sut i weithio fel tîm," meddai, ac ychwanegodd Fred, "mae gen i ffydd mawr yn eu dawn anghymarol i gael y gorau allan o'i gilydd ac o weddill y tîm."

Roedd Heddwyn Morris, cyn bostmon, sydd wedi arfer cludo newyddion da i ben eu taith, yr un mor hael ei ganmoliaeth i John a Maldwyn. Yn ôl Heddwyn, "Mae Mr John Baston a fi wedi chwarae llawer efo'n gilydd

ac rydan ni ar frig y rhestr chwaraewyr y parau yng nghynghrair y bowlwyr hŷn." Wrth gwrs, ni allai Heddwyn adael i'r foment felys basio heb dalu teyrnged haeddiannol i Maldwyn am ei waith yn annog ac yn miniogi sgiliau John ac yntau. Meddai Heddwyn, "Heb Mald, does wybod lle bydden ni fel unigolion nac fel tîm."

Wrth ddiolch i dîm Llanfairfechan am eu croeso ac am y wled o frechdanau a chacennau a baratowyd ganddynt, dywedodd Maldwyn Pritchard ei fod yn falch o ennill unwaith eto, ond ei fod o hefyd yn dra diolchgar i weddill y tîm, ac yn arbennig i Mrs.Wendy Thomas a Mrs.Rita Lewis, am eu cyfraniad anhygoel nhw i lwyddiant tîm Bethesda. "Dyma ddwy sy wedi dangos i'r dynion sut mae ennill yn urddasol ac yn aml a cholli â gwên ar yr adegau prin pan ddigwydd hynny," meddai'r capten, cyn ymuno â'r criw i gael tynnu ei lun ar ddiwedd y seremoni.

PLAID LAFUR DYFFRYN OGWEN

Ar ddechrau mis Gorffennaf, cynhaliwyd bore coffi yng Nghanolfan Cefnfaes, gyda Betty Williams y cyn aelod seneddol. Cafwyd bore difyr, gan wneud mwy o elw nag sy'n arferol.

Yna, cynhaliwyd Cyfarfod Blyneddol Plaid Lafur Arfon yn Hiracl, Bangor. Etholwyd Tom Corns (Carneddi) yn gadeirydd, K.C. Gordon (Llanllechid) yn

drysorydd a Christine Cahalan (Talybont) yn ysgrifennydd aelodaeth. Dewiswyd cynrychiolydd i Gynhadledd Llafur Prydain a fydd yn Llynlleifiad (Lerpwl) yn Yr Hydref a chynrychiolwyr eraill.

Wedyn, yng nghanol y mis, yng Nghanolfan Gymdeithasol Cefnfaes, cynhaliwyd cyfarfod blyneddol Plaid Lafur Dyffryn Ogwen.

Etholwyd Mary Gillie (Rachub) yn gadeirydd, K.C. Gordon (Llanllechid) yn ysgrifennydd, Walter Williams (Bethesda) yn drysorydd, Christine Cahalan (Talybont) yn is-gadeirydd a Huw Jones (Rachub) yn drefnydd etholiadau.

Ymddeolodd Godfrey Northam fel ysgrifennydd, oherwydd cyflwr ei iechyd.